

# Adolygiad o Ardaloedd Tirwedd Arbennig yng Ngwynedd a Môn

**Paratowyd ar gyfer Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) Ynys Môn a Gwynedd**

Adroddiad Terfynol

Paratowyd gan LUC

Rhagfyr 2012

www.landuse.co.uk

**Teitl y Prosiect:** Adolygiad o Ardaloedd Tirwedd Arbennig yng Ngwynedd a Môn

**Cleient**: Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd

| Fersiwn | Dyddiad | Manylion y Fersiwn | Paratowyd gan | Gwiriwyd gan | Cymeradwywyd gan y Pennaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| 0.1 | 23.7.12 | Fersiwn fewnol gyntaf yr adroddiad drafft | Sally Parker | Kate Ahern | Kate Ahern |
| 1.0 | 2.11.12 | Ail fersiwn fewnol yr adroddiad | Sally Parker | Kate Ahern | Kate Ahern |
| 1.1 | 12.11.12 | Adroddiad drafft a gylchredwyd am sylwadau | Sally Parker | Kate Ahern | Kate Ahern |
| 2.0 | 20.12.12 | Adroddiad terfynol | Sally Parker | Kate Ahern | Kate Ahern |

# Adolygiad o Ardaloedd Tirwedd Arbennig yng Ngwynedd a Môn

Adroddiad Drafft

Paratowyd gan LUC

Tachwedd 2012

Planning & EIA
Design
Landscape Planning
Landscape Management
Ecology
Mapping & Visualisation

LUC BRISTOL
14 Great George Street
Bristol BS1 5RH
Tel:0117 929 1997
Fax:0117 929 1998
bristol@landuse.co.uk

Offices also in:
London
Glasgow
Edinburgh

FS 566056
EMS 566057

Land Use Consultants Ltd
Registered in England
Registered number: 2549296
Registered Office:
43 Chalton Street
London NW1 1JD
LUC uses 100% recycled paper

# Cynnwys


**1 Cefndir** **1**

**2 Y Dull ar gyfer diffinio Ardaloedd Tirwedd Arbennig** **3**
Cam 1: Meini prawf strategol 3
Cam 2: Sefydlu ardaloedd ymchwil eang ar gyfer ATA yng Ngwynedd a Môn 4
Cam 3: Sefydlu ATA penodol 10

**3 Yr ATA sydd wedi'u hargymell ar gyfer Gwynedd a Môn** **13**
ATA arferthedig ar gyfer Gwynedd a Môn 13
Y berthynas rhwng yr ATA arfaethedig a'r dynodiadau tirwedd lleol blaenorol 16

**Atodiad 1 Datganiadau Gwerth ac Arwyddocâd** **19**

# 1 Cefndir

1.1 Comisiynwyd LUC gan Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) Ynys Môn a Gwynedd i gynnal adolygiad o ddynodiadau tirwedd lleol ('Ardaloedd Tirwedd Arbennig' neu ATA), y ddau awdurdod fel rhan o'u gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Er dibenion yr adroddiad hwn, cyfeirir at ardaloedd y ddau awdurdod gyda'i gilydd fel 'Ardal yr Astudiaeth'. Gweler Ffigwr 1.1.

1.2 Fel y nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (2012), mae Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA) yn cael eu gweithredu gan awdurdodau cynllunio lleol pan fo rheswm digonol i gredu na all polisïau cynllunio arferol ddarparu'r warchodaeth angenrheidiol. Mae hefyd yn nodi, fodd bynnag, na ddylai dynodiadau o'r fath gyfyngu'n ddireswm ar ddatblygiadau derbyniol.

1.3 Yng Ngwynedd, diffinnir cyfanswm o 11 Ardal Gwarchod y Dirwedd (AGD, sydd gyfystyr ag ATA), yn y Cynllun Datblygu Unedol cyfredol (2001-2016). Gweler Ffigwr 1.2. Nodwyd yn Adroddiad yr Archwiliwr yn sgil Ymchwiliad Cyhoeddus y Cynllun y byddai'r polisi ar gyfer y dynodiadau tirwedd lleol hyn (B10):

*"…will enable the effect of a proposed development on the landscape to be assessed against the particular attributes of the local landscape... This could usefully inform decisions on proposed developments, not only in terms of the sensitive siting of new development, but also in its design and landscaping. In this respect the Policy will heighten the awareness among prospective developers of the importance of landscape impact…"*

1.4 Ym Môn, rhoddodd y Cyngor Sir y gorau i'r gwaith o gynhyrchu ei Gynllun Datblygu Unedol (CDU) yn 2005. Fodd bynnag, rhoddir pwys iddo fel ystyriaeth berthnasol wrth wneud penderfyniadau er dibenion rheolaeth adeiladu gan ei fod wedi cyrraedd cyfnod datblygedig (rhoddwyd y gorau i'r gwaith yn ystod y cam addasiadau arfaethedig). Roedd y CDU wedi penderfynu peidio ag adnabod Ardaloedd Tirwedd Arbennig ar yr ynys. Ar ddiwedd 2010, oedwyd y gwaith ar Gynllun Datblygu Lleol Ynys Môn yn y cyfnod Cyn-Adnau, ond bellach, maent yn gweithio gyda Gwynedd i baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl ar y Cyd), yn sgil sefydlu'r UPCC.

1.5 Hyd nes y mabwysiadir y CDLl ar y Cyd, mae cynllunio ar Ynys Môn yn parhau i gael ei arwain gan Gynllun Lleol Ynys Môn 1996, sy'n dynodi'r ynys gyfan (y tu allan i'r AONB a ffiniau aneddiadau) fel Ardal Tirwedd Arbennig dan Bolisi 31:

*"Yn y cynigion i ddatblygu yn yr Ardal Tirwedd Arbennig bydd raid rhoddi sylw arbennig i gymeriad neilltuol yr ardal y mae'r cynnig ynddi. Wrth ystyried effaith unrhyw gynnig ar y tirwedd bydd raid i'r Cyngor, cyn rhoddi caniatâd, fodloni ei hun fod modd ffitio'r datblygiad i mewn i'r tir o gwmpas heb wneud niwed annerbyniol i gymeriad y tirwedd yn gyffredinol a gwna'r Cyngor hyn cyn rhoddi caniatâd cynllunio."*

1.6 Er y bu i Adroddiad yr Archwiliwr ar Gynllun Lleol Ynys Môn 1996 gefnogi'r polisi uchod, nododd hefyd y byddai angen i gynllunwyr gyfeirio at Strategaeth Tirwedd yr ynys wrth ystyried effeithiau cynigion ar gymeriad y dirwedd ar raddfa fwy lleol (wedi hynny, mabwysiadwyd y Strategaeth fel Canllaw Cynllunio Atodol yn 1999 ac fe'i diweddarwyd yn 2011).

1.7 Bydd yr astudiaeth hon yn cynnal adolygiad trylwyr o'r dystiolaeth sydd ar gael i hysbysu'r dynodiad parhaus o Ardaloedd Tirwedd Arbennig yng Ngwynedd a Môn.

# 2 Y Dull ar gyfer diffinio Ardaloedd Tirwedd Arbennig

2.1 Ceisiwyd defnyddio dull ar gyfer yr adolygiad ATA yng Ngwynedd a Môn fyddai'n dilyn y canllawiau LANDMAP[1] a osodwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, gan sicrhau bod y dull yn gadarn ac yn gwneud y defnydd gorau o'r dystiolaeth leol a gwybodaeth cynllunwyr y cyngor, pensaer tirwedd a gweithwyr proffesiynol tirwedd LUC. Dilynwyd dull pedwar cam:

- **Cam 1: Diffinio Meini Prawf Strategol** - sefydlu p'un a oes angen dilys a chlir ac angen y gellir ei gyfiawnhau am ddynodiadau ATA yng Ngwynedd a Môn. Diffiniodd yr astudiaeth gyfres o chwe maen prawf a ddefnyddiwyd i ddyfarnu pob ATA posib, a sicrhawyd ym mhob achos y dilynwyd proses gyson wrth ystyried yr angen am ddynodiad lleol.
- **Cam 2: Sefydlu Ardaloedd Ymchwil Eang** - yn cynnwys cwestiynu a chyfuno'r sgoriau arfarniad o'r pum Agwedd Werthuso LANDMAP. Yng Ngwynedd, darparodd lleoliad cyfredol yr Ardaloedd Gwarchod y Dirwedd (AGD) fan cychwyn allweddol ar gyfer y cam hwn, ond yn ogystal, defnyddiwyd y data LANDMAP cyfredol (a thystiolaeth arall wedi'i mapio) i fireinio, a chynnig ATA newydd ble bo angen.
- **Cam 3: Sefydlu Ardaloedd Tirwedd Arbennig Penodol** - mireiniwyd ATA unigol ymhellach wrth gynnal gwaith desg fwy manwl ac arolwg maes. Ar gyfer pob ATA a nodwyd, drafftiwyd datganiad o angen clir a chofnodwyd unrhyw gysylltiadau/addasiadau i'r dynodiadau cyfredol (AGD Gwynedd). Ymgynghorodd UPCC â swyddogion y cyngor, y timau AHNE a Chyngor Cefn Gwlad Cymru ar yr ATA arfaethedig cyn bwrw ymlaen i'r cam nesaf.
- **Cam 4: Paratoi Datganiadau Gwerth ac Arwyddocâd** - unwaith y cytunwyd ar yr ATA arfaethedig, aethpwyd ati i'w mapio yn GIS a darparwyd Datganiadau Gwerth ac Arwyddocâd atodol ar gyfer pob un (gweler Atodiad 1).

## Cam 1: Meini prawf strategol

2.2 Gan fod y ddau awdurdod yn bwrw ymlaen â'u Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, roedd angen cynnal adolygiad o waelodlin cymeriad y dirwedd cyfredol er mwyn cael cyfiawnhad dros barhau i gynnwys y dynodiadau Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn y polisi cynllunio lleol. O ganlyniad, mae'r data LANDMAP a ddiweddarwyd yn ddiweddar ar gyfer y ddau awdurdod wedi chwarae rôl allweddol yn yr adolygiad hwn, ynghyd â gwybodaeth o'r ddau asesiad cymeriad tirwedd lleol (Gwynedd, 2005 - diweddarwyd fel rhan o'r cytundeb hwn - ac Ynys Môn, 1999 - a ddiweddarwyd yn 2011). Mae barn annibynnol gweithwyr proffesiynol tirwedd LUC, yn cynnwys ymarferiad dilysu maes trylwyr, wedi llunio rhan hanfodol o'r astudiaeth hon er mwyn sicrhau ei bod yn gadarn.

2.3 O ran rôl strategol yr ATA; mae'r ddau Gyngor yn cefnogi cysyniad y dynodiadau lleol - yn enwedig o ran y lefel ychwanegol o warchodaeth y maent yn ei gynnig i ardaloedd o'r dirwedd y tu allan i'r ddwy AHNE (Llŷn ac Ynys Môn) a Pharc Cenedlaethol Eryri. Yn ogystal, maent yn gwerthfawrogi'r rôl sydd ganddynt o ran cyfoethogi gosodiad y tirweddau gwarchodedig a'r Fenai (sy'n nodwedd amlwg o'r dirwedd ynddi'i hun), ynghyd â'u swyddogaeth o ran cynorthwyo i warchod tirweddau sensitif rhag datblygiad. Datblygodd yr astudiaeth feini prawf 'Ymarferol' a 'Tirwedd' mwy manwl i sicrhau ymhellach bod Ardaloedd Tirwedd Arbennig yr ardal yn gadarn, ac fe nodir hyn yng Ngham 3.

1 Cyngor Cefn Gwlad Cymru (Mehefin 2008) LANDMAP ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig: Nodyn Canllaw Gwybodaeth LANDMAP 1

# Cam 2: Sefydlu ardaloedd ymchwil eang ar gyfer ATA yng Ngwynedd a Môn

### Y cefndir i'r cam hwn a data LANDMAP

2.4 Pwrpas Cam 2 yn y fethodoleg oedd adnabod ardaloedd ymchwil eang ar gyfer ATA y gellid yna eu mireinio yng Ngham 3 (Sefydlu Ardaloedd Tirwedd Arbennig Penodol). Canolbwyntiodd y cam hwn yn unig ar y wybodaeth GIS a ddarparwyd gan LANDMAP - gan astudio'i bum 'agwedd' yn drylwyr i ganfod patrymau gofodol a allai dynnu sylw at ardaloedd fyddai'n werth eu hymchwilio ar gyfer dynodiad.

2.5 Mae pum agwedd LANDMAP, sef:

- Y Dirwedd Ddaearegol
- Cynefinoedd y Dirwedd
- Gweledol a Synhwyraidd
- Tirwedd Hanesyddol
- Tirwedd Ddiwylliannol

2.6 Mae i bob agwedd ei haen ofodol arbennig yn GIS, sy'n rhannu'r tir yn unedau daearyddol annibynnol. Cyfeirir at yr unedau annibynnol neu'r polygonau hyn fel 'ardaloedd agwedd'. Mae gan bob ardal agwedd gofnod arolwg ('Ffeil Casglwr') sy'n cofnodi sut y mae wedi'i dosbarthu, ei nodweddion a'i rhinweddau, a'r modd y cafodd ei harfarnu.

2.7 O fewn pob agwedd LANDMAP, ceir hyd at bedair lefel o ddosbarthiad hierarchaidd. Er enghraifft, o ran yr agwedd Gweledol a Synhwyraidd, y lefelau yw:

**Lefel 1** - Tirffurf a gorchudd tir eang (e.e. ucheldir / iseldir / datblygiad...)

**Lefel 2** - Tirffurf (e.e. ucheldir neu lwyfandir agored / cymoedd iseldir / tir adeiledig...)

**Lefel 3** - Tirffurf (e.e. gweundir ucheldirol / cymoedd iseldir mosaig / pentref...)

**Lefel 4** - Manylion - lleoliad / graddfa / agored / anheddiad (e.e. gweundir ucheldirol (grug) / cymoedd iseldir mosaig coediog / llinol...)

2.8 Yn ogystal, mae gan yr holl ardaloedd agwedd sgôr 'arfarniad cyffredinol' sengl sy'n seiliedig ar arfarniadau ar wahân a wnaed ar gyfer meini prawf penodol o fewn yr agwedd honno.

2.9 Mae nodyn canllaw Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn cyflwyno cyfres o fapiau sy'n dangos yr arfarniad cyffredinol ar gyfer pob agwedd mewn ardal astudiaeth achos, ac yna fap pellach sy'n dangos cyfanswm y sgôr arfarniad ar gyfer y pum agwedd wedi'u cyfuno. Fodd bynnag, nid yw'n cyflwyno unrhyw wybodaeth ar sut yr eir ati i gyfrifo'r sgôr arfarniad wedi'i chyfuno gan ddefnyddio GIS. Felly, bu i ni ddatblygu ein dull technegol ein hunain ar gyfer ymgymryd â'r broses yng Ngwynedd a Môn. Ymgynghorwyd â Chyngor Cefn Gwlad Cymru yn ystod y cam hwn o'r astudiaeth, ac roeddem yn fodlon â'r dull a ddatblygwyd i gwestiynu'r data LANDMAP. Caiff hwn ei egluro isod.

### Y dull a ddatblygwyd ar gyfer yr astudiaeth hon

2.10 Cafwyd data ar gyfer yr holl agweddau fel *shapefiles* a ddarparwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ac fe'i rhoddwyd mewn dogfen map ESRI (mxd) yn ArcGIS. Cynhaliwyd y dadansoddiad a'r gwaith cynhyrchu map a ddisgrifiwyd yn y rhan sy'n dilyn yn ArcGIS. Yn ogystal, cafodd y data ei allforio i ffeil map ArcReader ESRI (pmf) fel bod modd i bobl nad ydynt yn defnyddio ArcGIS gael gweld y data mewn ffordd ryngweithiol. Cafodd ei fapio'n thematig ar gyfer pob agwedd gan ddefnyddio dosbarthiadau Lefel 2, a chafodd pob agwedd ei hymchwilio yn ei thro. Yn ogystal, wrth ddefnyddio ArcReader, bu modd dehongli'r Ffeiliau Casglwr ar gyfer ardaloedd agwedd unigol, gweler yn **Ffigwr 2.1** isod.

**Ffigwr 2.1: Sgrinlun o'r prosiect ArcReader gyda hypergyswllt i ffeil casglwr 1**




2.11 O fewn pob agwedd LANDMAP, ceir cyfres o gwestiynau sy'n cael eu harfarnu yn eu tro (sy'n cael eu cyfuno i gynhyrchu'r 'Arfarniad Cyffredinol'. Mae'r holl arfarniadau LANDMAP yn seiliedig ar 'sgôr' pedwar pwynt, gweler y diffiniad yn Nhabl 2.1 isod:

**Tabl 2.2.1: Sgoriau Arfarniad LANDMAP**

| 'Sgôr' Arfarniad | Pwysigrwydd i'r agwedd a arfarnir |
|---|---|
| Eithriadol | Pwysigrwydd rhyngwladol neu genedlaethol |
| Uchel | Pwysigrwydd rhanbarthol neu sirol |
| Cymedrol | Pwysigrwydd lleol |
| Isel | Fawr neu ddim pwysigrwydd |

2.12 Nodir y cwestiynau a arfarnir ym mhob agwedd yn Nhabl 2.2 isod. Cynhaliwyd y dadansoddiad cychwynnol ar gyfer Gwynedd a Môn (disgrifir isod fel 'Rhan A'), gan ddefnyddio'r holl gwestiynau yn y tabl. Cynhaliwyd dadansoddiad eilaidd (disgrifir isod fel 'Rhan B') yn ogystal, a dewiswyd cyfres o gwestiynau yn sgil eu perthnasedd penodol i ddynodiad yr ATA. Mae'r rhain wedi'u lliwio'n wyrdd yn **Nhabl 2.2** isod.

**Tabl 2.2.2: Cwestiynau arfarnu LANDMAP**

| Cod y cwestiwn | Enw'r cwestiwn | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **Tirweddau Hanesyddol (5 cwestiwn + arfarniad cyffredinol)** | | |
| HL35 | Uniondeb | Defnyddiwyd i arfarnu 'cyfanrwydd' yr Ardal Agwedd. |
| HL36 | Goroesiad | Defnyddiwyd i arfarnu lefelau goroesi'r amrywiol gydrannau yn yr ardal agwedd. |

| Cod y cwestiwn | Enw’r cwestiwn | Disgrifiad |
|---|---|---|
| HL37 | Cyflwr | Cyflwr cyffredinol |
| HL38 | Prinder | Prinder yr ardal agwedd yn ardal yr astudiaeth |
| HL39 | Potensial | Potensial posib yr Ardal Agwedd ar gyfer astudiaeth neu ddefnydd addysgiadol neu dwristiaeth yn y dyfodol |
| HL40 | Arfarniad cyffredinol | Arfarniad cyffredinol ar gyfer Tirweddau Hanesyddol |
| **Cynefinoedd y Dirwedd (9 cwestiwn + arfarniad cyffredinol)** | | |
| LH37 | Cynefinoedd â blaenoriaeth | Yn benodol, rhain yn fwyaf nodweddiadol o'r ardal, prinder mewn cyd-destun cenedlaethol. Mae Cynefinoedd â Blaenoriaeth yn cael eu hegluro o ran y cynefinoedd hynny sydd fwyaf nodweddiadol o'r ardal, ond dylid darparu disgrifiad ble mae ardaloedd sylweddol o gynefinoedd ansawdd uchel, e.e. ADdGA. |
| LH38 | Arwyddocâd | Mae hyn yn ymdrin â'r mater o p'un a yw'r Ardal Agwedd yn cynnwys canran uchel o adnodd cenedlaethol, e.e. A yw'n gynefin sydd wedi'i gyfyngu i'r ardal neu a oes gan yr ardal gyfran uchel o'r adnodd cenedlaethol? |
| LH39 | Cyfle | Mae cyfle'n cael ei sgorio yn unol â pha mor hawdd y byddai i gyfoethogi unrhyw gynefinoedd cymedrol, uchel neu eithriadol cyfredol |
| LH40 | Cyfraddau Ymestyn | Cynnydd yn y cynefinoedd a'r rhywogaethau lled-naturiol a gwerthfawr a aseswyd dros y 25 mlynedd ddiwethaf |
| LH41 | Sensitifrwydd | Pa mor sensitif yw'r ardal i newidiadau mewn rheoli tir ac arferion eraill a allai gael effaith andwyol ar fioamrywiaeth? |
| LH42 | Cysylltedd / cydlyniad | Disgrifiwch pa mor dda y mae'r Ardal Agwedd yn gweithredu o ran rhwydweithiau rhyng-gysylltiol a choridorau ar gyfer cynefinoedd cynhenid, fydd yn caniatáu i rywogaethau symud ac amddiffyn a chyfoethogi bioamrywiaeth. |
| LH43 | Arfarnu Cynefin | Cynefin o bwys i rywogaethau allweddol: a yw'r ardal hon yn hysbys fel un ag arwyddocâd arbennig i un neu fwy o rywogaethau pwysig? |
| LH44 | Pwysigrwydd i rywogaethau allweddol | Dylai hwn fod yn asesiad cyffredinol o ba mor bwysig yw'r ardal ar gyfer Cynefinoedd a rhywogaethau. |
| LH45 | Arfarniad cyffredinol | Arfarniad cyffredinol ar gyfer Cynefinoedd y Dirwedd |
| **Gweledol a Synhwyraidd (4 cwestiwn + arfarniad cyffredinol)** | | |
| VS46 | Ansawdd yr olygfa | Y graddau y mae gan yr ardal olygfeydd o ansawdd darluniadwy, yn arddangos elfennau sy'n esthetig bleserus o ran eu cyfansoddiad. |

| Cod y cwestiwn | Enw'r cwestiwn | Disgrifiad |
|---|---|---|
| VS47 | Uniondeb | Y graddau y mae'r ardal mewn cyflwr da, gyda chymeriad cyson drwyddi, ac yn gyffredinol nid yw wedi'i difetha gan ddatblygiad ar raddfa fawr, sy'n weledol ymwthiol neu sy'n anghydnaws. |
| VS48 | Cymeriad | Y graddau y mae patrwm amlwg y gellir ei adnabod o elfennau, nodweddion a rhinweddau yn digwydd yn yr ardal agwedd, sy'n rhoi naws am le clir. |
| VS49 | Prinder | Y graddau y mae cymeriad gweledol a synhwyraidd yr ardal ac/neu nodweddion neu rinweddau yn brin/gynrychioliadol yn lleol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol/rhyngwladol. |
| VS50 | Arfarniad cyffredinol | Arfarniad Cyffredinol ar gyfer Gweledol a Synhwyraidd |
| **Tirwedd Ddiwylliannol (9 cwestiwn + arfarniad cyffredinol)** | | |
| CL31 | Cydnabyddiaeth / tryloywder | Y lefel y mae elfennau diwylliannol tirwedd yn cael eu cydnabod gan gymdeithas |
| CL32 | Cyfnod | Cysylltiadau/dylanwadau sy'n ymwneud â chategori neu weithgaredd neu fynegiant diwylliannol (cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel 'arferion') sy'n cynrychioli cyfnod, symudiad neu grŵp o ddigwyddiadau neu bobl, naill ai'n hanesyddol neu'n gyfoes. |
| CL33 | Prinder | Mathau o gysylltiadau/dylanwadau prin, neu sy'n ymwneud ag arferion prin, neu annaturiol anghyffredin; fodd bynnag, rhaid gwneud dewisiadau sy'n darlunio'r nodweddiadol a'r cyffredin ynghyd â'r prin.  Dylai'r broses hon ystyried holl agweddau'r dosbarthiad o fath penodol o gysylltiad/dylanwad. |
| CL34 | Dogfennaeth | Efallai y bydd arwyddocâd a phwysigrwydd cysylltiad/dylanwad yn cael ei gynyddu yn sgil bodolaeth cofnodion, disgrifiadau neu gyfrifon blaenorol, neu o ran cysylltiadau/dylanwadau mwy diweddar, drwy gael tystiolaeth gefnogol o ddeunydd ysgrifenedig, gweledol neu lafar cyfoes. |
| CL35 | Gwerth y grŵp | Efallai y bydd gwerth cysylltiad/dylanwad sengl (megis enw lle) yn cael ei gynyddu'n fawr drwy ei gyswllt â chysylltiadau cyfoes perthnasol (megis llên gwerin neu draddodiad), neu gyda chysylltiadau/dylanwadau o wahanol gyfnodau.  Mewn rhai achosion, mae'n well adnabod y grŵp cyfan o gysylltiadau, yn cynnwys ardaloedd neu nodweddion cysylltiedig a chyfagos, yn hytrach nag adnabod cysylltiadau ynysig o fewn y grŵp. |
| CL36 | Goroesiad | Mae goroesiad neu hirhoedledd arferiad neu gysylltiad diwylliannol yn ystyriaeth hynod bwysig ac fe ddylid ei asesu mewn perthynas â ffurf, cyflwr a defnydd yr ardal neu'r nodwedd y mae'r arferiad yn gysylltiedig ag ef. |
| CL37 | Bregusrwydd | Gelir colli neu anghofio tystiolaeth ddiwylliannol bwysig mewn cysylltiad neu arferion yn ddifater, esgeulustod neu ddiffyg cofnodi'r ardal neu'r nodwedd y mae'n berthnasol iddo: dylid adnabod a chofnodi cysylltiadau/dylanwadau bregus o'r math |

| Cod y cwestiwn | Enw’r cwestiwn | Disgrifiad |
|---|---|---|
| | | hwn ar gyfer y dyfodol. |
| CL38 | Amrywiaeth | Gellir adnabod rhai cysylltiadau gan eu bod yn cynrychioli arferion, ac eraill gan eu bod yn cynrychioli arfer pwysig sengl. |
| CL39 | Potensial | Ar achlysur, ni ellir nodi'n benodol beth yw natur y dystiolaeth, ond efallai y bydd dal modd i ddogfennu'r rhesymau dros ei fodolaeth a'i bwysigrwydd ac felly arddangos y cyfiawnhad am ei adnabod.  Mae hyn wedi'i gyfyngu i ardaloedd dangosol yn hytrach na safleoedd diffiniedig neu nodweddion penodol. |
| CL40 | Arfarniad cyffredinol | Arfarniad cyffredinol ar gyfer Tirwedd Ddiwylliannol |
| **Tirweddau Daearegol (5 cwestiwn + arfarniad cyffredinol)** | | |
| GL29a | Gwerth Ymchwil | Dim gwybodaeth wedi'i ddarparu gan LANDMAP |
| GL29b | Gwerth Addysgiadol | Dim gwybodaeth wedi'i ddarparu gan LANDMAP |
| GL30 | Gwerth Hanesyddol | Dim gwybodaeth wedi'i ddarparu gan LANDMAP |
| GL31 | Prinder/pa mor unigryw ydyw | Dim gwybodaeth wedi'i ddarparu gan LANDMAP |
| GL32 | Enghraifft glasurol | Dim gwybodaeth wedi'i ddarparu gan LANDMAP |
| GL33 | Arfarniad cyffredinol | Arfarniad cyffredinol ar gyfer Tirwedd Ddaearegol |

2.13 I asesu'r holl agweddau gyda'i gilydd, cyfunwyd y data GIS ar gyfer pob agwedd yn Ardal yr Astudiaeth; proses a elwir yn 'uno'.  Mae'r broses hon yn groestoriad geometrig o'r nodweddion yn y *shapefiles* gwreiddiol.   Gweler y broses hon yn Ffigwr 2.2 isod.

**Ffigwr 2.2:  Enghraifft o sut y cyfunwyd y data LANDMAP yn GIS ('uno') 2**



Visual and Sensory Aspect — Historic Landscape Aspect — Visual and Sensory and Historic Landscapes Unioned (new data set)

2.14 Dengys ffigwr 2.2 enghraifft o'r broses uno ar gyfer dwy agwedd LANDMAP (Gweledol a Synhwyraidd a Thirweddau Hanesyddol).   Mae'r broses uno yn cadw llinellau'r ffin a'r data priodoli.   Mae'r rhifau yn y ffigyrau'n dangos nifer yr arfarniadau 'Eithriadol' y bu i'r ardal eu derbyn, ac mae'r set ddata cyfunol (dde bellaf) yn dangos sut y cafodd y rhain eu hadio ynghyd.

2.15 Dilynwyd y broses hon ar gyfer y pum agwedd, fel y bu i'r set ddata a gafwyd o ganlyniad i hynny gyflwyno'r data arfarniad cyfunol ar draws holl ardal yr astudiaeth.

### Rhan A: Dadansoddiad cyfunol o'r holl arfarniadau LANDMAP

2.16 Ystyriodd y dadansoddiad cychwynnol (Rhan A) yr holl gwestiynau arfarnu ar gyfer y pum agwedd, yn unol â'r rhestr yn **Nhabl 2.2** uchod. Cynhyrchwyd tri map yn dangos:

- **Ffigwr 2.3**: Nifer yr arfarniadau 'Eithriadol'
- **Ffigwr 2.4:** Nifer yr arfarniadau 'Uchel' ac 'Eithriadol' (wedi'u cyfuno)
- **Ffigwr 2.5**: Nifer yr arfarniadau 'Cymedrol', 'Uchel' ac 'Eithriadol' (wedi'u cyfuno)

2.17 O fewn y ffigyrau uchod, y rhannau sydd wedi'u lliwio'n wyrdd tywyllaf/goleuaf yw'r rhai sydd â'r nifer uchaf o arfarniadau (sgorio 'Eithriadol', 'Uchel' ac ati - gyda'r cyfuniadau wedi'u nodi uchod) ac mae'r ardaloedd gwyrdd goleuaf/melyn yn cynrychioli'r rhai gyda'r nifer leiaf o arfarniadau yn erbyn y sgôr angenrheidiol. Cyflwynwyd yr holl fapiau hyn â ffiniau'r AHNE, y Parc Cenedlaethol ac Ardaloedd Gwarchod y Dirwedd cyfredol Gwynedd, er mwyn edrych ar y gydberthynas rhwng dynodiadau cyfredol a data LANDMAP.

2.18 Daeth patrwm clir yn amlwg a ddangosai nifer gyfyngedig iawn yr arfarniadau 'Eithriadol', gweler yn **Ffigwr 2.3** (hyd yn oed o fewn y Parc Cenedlaethol a'r AHNE), gyda chynnydd yn cael ei weld pan ystyriwyd yr arfarniadau 'Uchel' yn ogystal (**Ffigwr 2.4**). Fodd bynnag, roedd bylchau yn dal i'w gweld, yn enwedig ym Môn (yn cynnwys ar arfordir yr AHNE). Unwaith yr ychwanegwyd arfarniadau 'Cymedrol' i'r mapio (**Ffigwr 2.5**), roedd bron i'r cwbl o Ardal yr Astudiaeth wedi'i chynnwys, gyda'r mwyafrif o'r map wedi'i liwio'n wyrdd. Bu i hyn ei gwneud yn anodd gwahaniaethu rhwng Ardaloedd Ymchwilio Eang ar gyfer chwilio ATA ymhellach (ymddengys bod hyn yn cynnwys y cyfan o Ardal yr Astudiaeth).

2.19 Yn dilyn cynhyrchu'r mapiau hyn, cynhyrchwyd dau fap pellach a ganolbwyntiai'n unig ar yr agwedd Weledol a Synhwyraidd, yn sgil ei berthnasedd penodol at ansawdd y dirwedd. Gwnaed hyn er mwyn cynorthwyo i ddatgelu patrymau a allai hysbysu detholiad yr Ardaloedd Ymchwil Eang. Mae **Ffigyrau 2.6** a **2.7** yn dangos yr hyn a ganlyn:

- **Ffigwr 2.6:** Nifer yr arfarniadau 'Uchel' ac 'Eithriadol' (wedi'u cyfuno)
- **Ffigwr 2.7:** Nifer yr arfarniadau 'Cymedrol', 'Uchel' ac 'Eithriadol' (wedi'u cyfuno)

2.20 Fel y gellid disgwyl i raddau, tynnodd **ffigwr 2.6** sylw at y ffaith bod mwyafrif yr ardaloedd agwedd 'Uchel' neu 'Eithriadol' wedi'u cynnwys yn y tirweddau dynodedig cenedlaethol (er ni fu i rai rhannau o'r ardaloedd hyn dderbyn sgôr 'Uchel' nac 'Eithriadol' - bu hyn yn syndod i ni).Yn ogystal, tynnodd sylw at rai lleoliadau y tu allan i'r Parc Cenedlaethol a'r AHNE a sgoriodd yn uwch (e.e. ar lan y Fenai, ymylon yr Wyddfa a Mynydd Parys), ac roedd rhai yng Ngwynedd yn cyd-fynd â'r AGD. Arweiniodd **ffigwr 2.7** at fap bron yn gyfan gwbl wyrdd, gan awgrymu bod rhan helaeth o Ardal yr Astudiaeth wedi sgorio'n gymedrol neu'n uwch yn yr agwedd Weledol a Synhwyraidd. Gan nad oedd patrymau clir iawn yn dod i'r amlwg fel y gellid creu Ardaloedd Ymchwil Eang, cynhaliwyd proses fwy detholus o adolygu'r arfarniadau LANDMAP (gweler Rhan B isod).

### Rhan B: Dadansoddiad cyfunol o'r holl arfarniadau LANDMAP

2.21 Ni ddatgelwyd fawr o batrymau yn y dadansoddiad cyfunol a wnaed yn Rhan A a oedd yn ein galluogi i sefydlu Ardaloedd Ymchwil Eang ar gyfer dynodiadau ATA. O ganlyniad, detholwyd y cwestiynau arfarnu mwyaf perthnasol ar draws y pum agwedd er mwyn eu dadansoddi'n fwy penodol (gweler eu bod wedi'u lliwio'n wyrdd yn **Nhabl 2.2** uchod). Daethpwyd i gytundeb ar y broses fwy detholus hon o ddefnyddio LANDMAP i adnabod Ardaloedd Ymchwil Eang â Chyngor Cefn Gwlad Cymru yn sgil absenoldeb patrymau clir yn dilyn y dadansoddiad Rhan A cychwynnol. Yn ogystal, argymhellodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru roi cynnig ar y mapiau gydag a heb yr agwedd Tirweddau Diwylliannol (gan ei bod yn debygol bod yr agwedd hon yn cael ei sgorio'n uchel ar draws llawer o Ardal yr Astudiaeth, ac felly ei bod yn 'sgiwio'r' canlyniadau).

2.22 Cynhyrchwyd dau fap pellach yn dangos:

- **Ffigwr 2.8**: nifer y dosbarthiadau 'Eithriadol' neu 'Uchel; yn dibynnu ar y cwestiynau a ddewiswyd.
- **Ffigwr 2.9**: nifer y dosbarthiadau 'Eithriadol' neu 'Uchel' yn seiliedig ar y cwestiynau a ddewiswyd, ac eithrio'r agwedd Tirweddau Diwylliannol.

2.23 O fewn y ddau fap yma, yr ardaloedd sydd wedi'u lliwio'n wyrdd tywyllaf sydd â'r nifer uchaf o arfarniadau 'Eithriadol' neu 'Uchel' ledled yr holl ardaloedd agwedd (ar gyfer y cwestiynau a ddewiswyd). Nid oedd gan yr ardaloedd wedi'u lliwio'n frown a melyn tywyllaf yr un, neu ddim ond un, arfarniad 'Uchel' neu 'Eithriadol'.

2.24 Gan y cynhyrchwyd y mapiau hyn gan ddefnyddio arfarniadau a ddewiswyd yn ofalus ar draws y pum agwedd i gyd, ystyriwyd mai'r rhain fyddai'n darparu'r dystiolaeth waelodlin fwyaf trylwyr a chytbwys i dynnu sylw at ardaloedd posib y gellid eu hystyried ar gyfer dynodiad ATA. Er y gwelir rhai patrymau ar y mapiau hyn (e.e. sgoriau uwch mewn rhai rhannau o'r tir sy'n ffinio â'r Fenai, ymylon Eryri, Mynydd Parys, Mynydd Mechell a Chors Malltraeth); roedd yn amlwg na fyddai LANDMAP yn darparu'r atebion i gyd. Felly, sicrhaodd y prosiect bod unrhyw ddynodiad ATA yn seiliedig ar gyfres o feini prawf amlwg (gweler Cam 3 isod), wedi'u hadolygu yn erbyn y canlyniadau LANDMAP ar y cyd â phroses arolwg maes trylwyr a chasglu tystiolaeth bellach/ymgynghori.

## Cam 3: Sefydlu ATA penodol

### Diffinio meini prawf er mwyn dynodi ATA yng Ngwynedd a Môn.

2.25 Fel y nododd Cyngor Cefn Gwlad Cymru (2008), gall ardaloedd o bwysigrwydd tirwedd uchel gael eu dynodi fel ATA am eu gwerth ffisegol, amgylcheddol, gweledol, diwylliannol a hanesyddol cynhenid yn y dirwedd gyfoes. Cafodd ardaloedd ATA posib ar gyfer ardal yr astudiaeth eu hadnabod gan ddefnyddio cyfres glir o feini prawf gan ddilyn arferion gorau cenedlaethol [2], a bydd tystiolaeth yn cael ei chyflwyno [drwy Ddatganiadau Gwerth ac Arwyddocâd] i sicrhau eu cadernid.

2.26 Datblygodd a chytunodd yr astudiaeth hon ar dri math o feini prawf i ddewis ardaloedd ar gyfer dynodiadau ATA posib. Ystyrir y meini prawf hyn ar y cyd ar gyfer pob ATA: bydd angen i'r holl ardaloedd fodloni dau 'Faen Prawf Ymarferol' ac o leiaf un o'r tri 'Maen Prawf Tirwedd'. Darperir maen prawf ar wahân ar gyfer yr ATA hynny fydd yn chwarae rôl bwysig ehangach wrth warchod/mwyhau gosodiad y tirweddau a warchodir yn genedlaethol (Parc Cenedlaethol Eryri ac AHNE Llŷn ac Ynys Môn). Dyluniwyd y meini prawf yn ofalus i sicrhau bod ardaloedd a ddynodir yn ATA yn cael eu dynodi yn seiliedig ar angen clir: mae angen i'r ATA fod yn dirweddau 'arbennig' a nodedig, a bodloni'r meini prawf strategol cyffredinol o ddarparu amddiffyniad ychwanegol (yn ychwanegol i'r polisi safonol) i dirweddau sensitif yn ardaloedd yr awdurdod.

2.27 Nodir y meini prawf hyn yn **Nhabl 2.3** ar y dudalen nesaf.

### Gwaith arolwg maes

2.28 Unwaith y cytunwyd ar y meini prawf â'r Cynghorau, cynhaliwyd ymarferiad gwaith maes manwl gan ddylunwyr tirwedd LUC i adnabod ardaloedd o'r dirwedd i'w hystyried ar gyfer dynodiad ATA. Cafodd y gwaith maes ei arwain gan y canlyniadau o Gam 2 yn y broses (a sefydlodd 'Ardaloedd Ymchwil Eang'). O ran Gwynedd, adolygodd y gwaith maes yr 11 AGD presennol yn ofalus - gan asesu p'un a ddylid eu cadw yn eu cyfanrwydd; addasu eu ffiniau neu p'un a fethodd y dynodiad cyfredol wrthsefyll y broses graffu dan y meini prawf ATA newydd.

2.29 Defnyddiodd y broses gwaith maes y meini prawf a nodir yn Nhabl 2.3 i lunio barn broffesiynol ynghylch p'un a ellid cyfiawnhau ardaloedd o'r dirwedd leol ar gyfer dynodiad fel ATA. Gwnaed nodiadau yn y maes a thynnwyd ffotograffau cynrychioliadol. Nodwyd ffiniau ar gyfer ATA arfaethedig gan ddefnyddio map sylfaen Arolwg Ordnans, gan geisio dilyn nodweddion tirwedd rhesymegol (ffyrdd, cyfuchlinau, afonydd, ac ati) a, ble roedd modd, geisio ffit rhesymegol gyda gwaelodlin y dirwedd (LANDMAP neu'r ACLl lleol).

2 Mae hyn yn cynnwys argymhellion o ganllawiau *Scottish Natural Heritage (March 2004): Guidance on Local Landscape Designations*)

### Ymgynghori a dilysu

2.30 Cyflwynwyd canfyddiadau'r gwaith arolwg maes i'r Grŵp Llywio mewn cyfarfod yn swyddfeydd yr UPCC ym Mangor ac fe'u trafodwyd â'r Grŵp. Yn dilyn y cyfarfod hwn, cylchredwyd crynodeb ysgrifenedig o'r cyfiawnhad am yr ardaloedd y pennwyd eu bod yn addas ar gyfer dynodiad ATA, ynghyd â mapiau o'r ATA arfaethedig. Trafododd y Grŵp Llywio'r canfyddiadau hyn ymhellach â swyddogion perthnasol yn y ddau gyngor, ynghyd â'r timau AHNE. Yn ogystal, cynhaliodd yr UPCC gyfarfod â phensaer tirwedd Cyngor Cefn Gwlad Cymru i dderbyn barn broffesiynol bellach ar y dynodiadau arfaethedig.

2.31 Ystyriwyd yr awgrymiadau ychwanegol a gyflwynwyd yn y cam hwn gan ddefnyddio'r dystiolaeth oedd ar gael.

**Tabl 2.3: Meini Prawf Dynodiadau ar gyfer Ardaloedd Tirwedd Arbennig**

| Meini prawf a rhesymeg | Ffactorau i'w hystyried* | Ffynhonnell tystiolaeth |
|---|---|---|
| **Meini prawf ymarferol (bydd angen i'r holl ATA posib eu bodloni)** | | |
| **Angen**<br>I ba raddau fydd y dynodiad yn darparu ar gyfer rheoli a chynllunio nodweddion yr ardal sy'n cael ei hystyried ar gyfer dynodiad yn fwy effeithiol? | Presenoldeb/absenoldeb dynodiadau eraill<br>Argymhelliad cryf gan yr ACLl a chefnogaeth leol ynghylch yr angen am lefel o ddynodiad/gwarchodaeth ychwanegol ar gyfer ardaloedd penodol.<br>Ardaloedd ble mae'r ACLl wedi nodi pwysau ac angen penodol am gynllunio a rheolaeth bositif er mwyn cadw cymeriad arbennig. | Gwybodaeth ynghylch yr angen sydd wedi'i gytuno drwy gyfarfodydd y grŵp llywio â'r cleient ac sydd wedi'u hysbysu gan y gymuned leol a budd-ddeiliaid eraill |
| **Cyfanrwydd / cydlyniad cymeriad y tirlun**<br>A yw'r ardal sydd i'w dynodi yn ddigon cydlynol (o ran cymeriad) ac yn ddigon mawr i'w gwneud yn ymarferol i ddatblygu polisïau i'w gwarchod, ei rheoli a'i chynllunio? | **Maint** - rhaid i ATA fod yn fwy na nodwedd tirwedd neu safle unigol a ffurfio 'ardal' gydlynol.<br>Dylai fod modd ei hadnabod fel **ardal gydlynol** - efallai y bydd ganddi ffiniau amlwg | Arfarniadau LANDMAP Gweledol a Synhwyraidd, Cynefinoedd y Dirwedd, Tirweddau Hanesyddol a Thirweddau Diwylliannol.<br>Gwybodaeth AGD<br>Arolwg maes |
| **Meini prawf y dirwedd (bydd angen i'r holl ATA posib fodloni o leiaf un ohonynt)** | | |
| **Hynodrwydd lleol a naws am le**<br>A yw'r dirwedd yn benodol brin/unigryw neu arbennig yn y cyd-destun lleol?<br>A yw'r dirwedd yn | **Cymeriad cydlynol y dirwedd** yn cyfleu naws am le y gellir ei adnabod<br>**Tirffurf neu dopograffi amlwg** yn ffurfio ardal amlwg y | Arfarniadau LANDMAP Gweledol a Synhwyraidd, Cynefinoedd y Dirwedd, Tirweddau Hanesyddol a Thirweddau |

| | | |
|---|---|---|
| darparu cyfraniad pwysig i'r hynodrwydd/naws am le lleol? | gellir ei hadnabod<br>**Cymeriad cryf wedi'i gysylltu â ffactorau diwylliannol neu naturiol** - sy'n cyfrannu at y ddealltwriaeth ynghylch ei gymeriad hanesyddol a'r cofnod diwylliannol ehangach neu greu elfen gref o naturioldeb.<br>Tirwedd â **chysylltiadau penodol** megis cynrychiolaeth mewn celf, cerddoriaeth, llenyddiaeth, iaith neu lên gwerin. | Diwylliannol.<br>Gwybodaeth AGD<br>Dynodiadau'r dirwedd hanesyddol<br>Dynodiadau natur/bywyd gwyllt<br>Arolwg maes |
| **Ansawdd y dirwedd**<br>A yw'r ATA arfaethedig yn cyfrannu at rinweddau tirwedd a gweledol pwysig sy'n gysylltiedig â'r dirwedd leol? | Tirwedd gyflawn gydag elfennau tirwedd nodweddiadol wedi'u cynrychioli'n dda ar draws yr ardal<br>Tirwedd ag elfennau nodweddiadol mewn cyflwr da<br>**Dim elfennau neu nodweddion anghydweddol yn bresennol** neu ddim yn amharu'n weledol ar yr ardal | Arfarniadau LANDMAP (cwestiynau a ddewiswyd)<br>Gwybodaeth AGD<br>Arolwg maes |
| **Ansawdd yr olygfa**<br>A oes rhinweddau golygfaol ac esthetig penodol yn y dirwedd ac a ydynt yn apelio at y synhwyrau? | Cymeriad gweledol cryf gyda **golygfeydd cofiadwy, pwysig neu amlwg.**<br>Rhinweddau canfyddiadol arbennig megis **ymdeimlad cryf o dawelwch, ymdeimlad gwledig neu ymdeimlad pellennig.** | Gwybodaeth AGD<br>LANDMAP (golygfeydd)<br>Arolwg maes<br>Mapio ymwthiadau |
| **Gosod maen prawf tirweddau gwarchodedig (dim ond i'w defnyddio ar y cyd â'r uchod)** | | |
| **Gosodiad tirweddau o bwysigrwydd cenedlaethol**<br>A yw'r ATA yn darparu gosodiad gwerthfawr i dirweddau gwarchodedig cyfagos (AHNE a'r Parc Cenedlaethol), yn | Yr ardal yn llunio estyniad i'r Parc Cenedlaethol/AHNE o ran cymeriad<br>Ardal o ansawdd golygfaol uchel fel tirwedd ddynodedig<br>Golygfeydd/rhyngwelededd i | Mapiau AO<br>Gwybodaeth AGD<br>Arolwg maes |

| | | |
|---|---|---|
| cynnwys golygfeydd i ac o'r dirwedd warchodedig? | ac o'r dirwedd warchodedig | |

2.32 *Dalier sylw: Ni fydd angen bodloni'r holl ffactorau ar gyfer dynodiad fel Ardal Tirwedd Arbennig. Bydd nifer o'r ffactorau'n cydweithio ar y cyd.

### Cwblhau'r ATA arfaethedig yn derfynol a pharatoi Datganiadau Gwerth ac Arwyddocâd

2.33 Unwaith y cytunwyd ar yr ATA arfaethedig, cadarnhawyd y ffiniau yn y GIS yn derfynol a darparwyd Datganiadau Gwerth ac Arwyddocâd drafft. Cylchredwyd y datganiadau drafft i'r Grŵp Llywio am sylwadau pellach ganddynt hwy a chan swyddogion eraill yn y Cyngor. Cynhaliwyd cyfarfod terfynol ym mhencadlys yr UPCC i drafod drafftiau terfynol y datganiadau, sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

2.34 Mae'r Bennod nesaf yn nodi'r canfyddiadau terfynol o adolygiad yr ATA.

# Yr ATA sydd wedi'u hargymell ar gyfer Gwynedd a Môn

## Yr ATA arfaethedig ar gyfer Gwynedd a Môn

3.1 **Mae Tabl 3.1** yn nodi trawstoriad o'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig sydd wedi'u hargymell ar gyfer Gwynedd a Môn: Deg yng Ngwynedd a chwech yn Ynys Môn. **Mae ffigyrau 3.1 a 3.2** yn darlunio'r ATA yng nghyd-destun ardal yr astudiaeth (a'r tirweddau gwarchodedig cenedlaethol). Gweler disgrifiadau llawn ('Datganiadau Gwerth ac Arwyddocâd') o bob ATA, sy'n nodi sut maent yn bodloni pob maen prawf dynodiad, yn Atodiad 1.

**Tabl 3.1 Rhestr o Ardaloedd Tirwedd Arbennig arfaethedig 1**

| Enw/Rhif ATA arfaethedig | Crynodeb o'r cyfiawnhad am y dynodiad |
|---|---|
| **GWYNEDD** | |
| 01: Gorllewin Llŷn | • Tirwedd agos, gwledig gyda chymeriad o lonyddwch<br>• Ardaloedd o batrymau caeau cymhleth gyda phocedi o goetir a rhostir<br>• Yr hanner gorllewinol yn sgorio'n uchel ar draws yr holl agweddau sgorio LANDMAP > Uchel<br>• Gosodiad pwysig a golygfeydd arwyddocaol i/o AHNE Llŷn<br>• Dan bwysau yn sgil datblygiadau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, yn enwedig yn y de o amgylch Pwllheli ac Abersoch |
| 02: Porthmadog a Bae Tremadog | • Tirwedd amlwg, olygfaol ac amrywiol sy'n ffurfio'r newid o'r Parc Cenedlaethol at yr arfordir<br>• Cymeriad gwledig cryf<br>• Mae cyfran sylweddol o'r ardal yn sgorio'n uchel ar draws yr agweddau sgorio > Uchel (ynghyd â'r arfarniad cyffredinol ar gyfer Gweledol a Synhwyraidd)<br>• Gosodiad i'r Parc Cenedlaethol<br>• Gallai fod dan bwysau yn y dyfodol yn sgil datblygiadau sy'n ymwneud â thwristiaeth o amgylch Morfa Bychan a datblygiadau seilwaith o amgylch Porthmadog |
| 03: Tirweddau Aber Afon Glaslyn a Dwyryd | • Ardal amlwg o dir ffermio gwastad wedi'i adfer a chynefinoedd morydol (yn cynnwys dŵr agored): amlwg yn ddiwylliannol ac yn weledol<br>• Sgorio'n gymedrol ar draws yr agweddau LANDMAP (rhain yn sgorio >Uchel), yn enwedig o amgylch Portmeirion a glannau'r dyfroedd<br>• Y tu allan i ardaloedd wedi'u datblygu, yn sgorio'n 'Uchel' yn agwedd Gweledol a Synhwyraidd LANDMAP o amgylch Portmeirion<br>• Golygfeydd godidog tuag at y Cnicht a Mynyddoedd y Moelwyn.<br>• Gosodiad pwysig i'r Parc Cenedlaethol<br>• Ardal yn debygol o fod dan bwysau parhaus am ddatblygiad pellach (yn cynnwys dibenion hamdden/twristiaeth ar ymylon aneddiadau) |
| 04: Penllyn | • Tirwedd agos, tawel a chyflawn yn llunio gosodiad golygfaol i'r Parc Cenedlaethol (ond ar raddfa lai)<br>• Tir amaethyddol bugeiliol a phorfa arw gyda choetiroedd cyson a choed aeddfed yn rhoi cymeriad lled-naturiol<br>• Ucheldir Foel Goch wedi cael arfarniad 'Uchel' yn yr agwedd Weledol a Synhwyraidd.<br>• Tyrbinau gwynt yn yr ardal ac ar ei hymylon yn barod: tebygol o fod dan fwy o bwysau |

| Enw/Rhif ATA arfaethedig | Crynodeb o'r cyfiawnhad am y dynodiad |
|---|---|
| 05: Corris | • Ffurfio porth i'r Parc Cenedlaethol a Sir Gwynedd o Bowys<br>• Rhannau mawr heb neb yn byw ynddynt, tawel ac anghysbell. Cymeriad coediog cryf (yn cynnwys ASNW) a thirwedd o ddyffryn heddychlon.<br>• Yr hanner deheuol yn sgorio'n uchel ar draws yr holl agweddau sgorio LANDMAP > Uchel; ardaloedd chwareli llechi yn sgorio 'Eithriadol' yn yr agwedd Tirweddau Hanesyddol<br>• Tirwedd bwysig yn ffurfio gosodiad i'r Parc Cenedlaethol a heb ddynodiad cyfwerth ar hyn o bryd. |
| 06: Bae Abermaw | • Gosodiad unigryw a chryf, cymeriad cydlynol: aber arfordirol, graddiant y traeth i fyny i dir uwch - mynyddoedd yn ffurfio cefnlen olygfaol ac amlwg.<br>• Afon Mawddach yn sgorio'n uchel ar draws yr holl agweddau sgorio LANDMAP > Uchel ac 'Uchel' yn yr arfarniad cyffredinol Gweledol a Synhwyraidd<br>• Porth arfordirol i'r Parc Cenedlaethol gyda chysylltiadau gweledol a swyddogaethol cryf i'r dirwedd warchodedig |
| 07: Ymylon gogledd-orllewin Eryri | • Pocedi o weundir uwchdir wedi'i amgylchynu gan gaeau hanesyddol y 19eg ganrif - yn ymestyn cymeriad y Parc Cenedlaethol i dirweddau is<br>• Ardaloedd mawr yn sgorio'n uchel ar draws yr holl agweddau sgorio LANDMAP > Uchel<br>• Gosodiad pwysig a 'byffer' i Eryri<br>• Yn debygol o fod dan bwysau am ddeunyddiau adnewyddadwy a seilwaith arall (e.e. mastiau/peilonau)<br>• Yn y gogledd-ddwyrain, pwysau ar hyd y coridor at yr A55 brysur ger Bangor |
| 08: Bae'r Foryd | • Ardal rynglanwol amlwg yn ffurfio'r porth gorllewinol i'r Fenai<br>• Rhyngweledadd cryf ag AHNE Ynys Môn a gosodiad y dirwedd warchodedig hon (yn enwedig Cwningar Niwbwrch ar ochr gyferbyn y Fenai)<br>• Rhan fawr o'r ardal yn sgorio'n 'Uchel' ar yr agwedd Weledol a Synhwyraidd ac yn sgorio'n uchel ar draws yr holl agweddau sgorio (> Uchel)<br>• Poced o heddwch/natur yn agos i Gaernarfon. |
| 09: Menai | • Tirwedd goediog amlwg yn ffurfio nodwedd gref o'r tirlun ar hyd glannau deheuol y Fenai (yn amlwg mewn golygfeydd ar draws y dŵr)<br>• Rhyngweledadd cryf ag AHNE Ynys Môn a gosodiad y dirwedd warchodedig<br>• Mwyafrif yr ardal (yn enwedig y gorllewin) yn sgorio'n uchel ar draws yr agweddau sgorio LANDMAP > Uchel<br>• Poced o goetir aeddfed heddychlon/amlwg rhwng ardaloedd adeiledig Bangor a Chaernarfon. |
| 10: Mynydd Bangor | • Llechwedd ymgodol amlwg gydag ardaloedd o dir garw (e.e. eithin) sy'n darparu gosodiad pwysig i Fangor a chyfyngiant ar ddatblygiad<br>• Cysylltedd gweledol gyda thir ystâd coediog ar hyd y Fenai (e.e. ATA 09 a Chastell y Penrhyn)<br>• Ardal sy'n sensitif i bwysau datblygiad o'r ddinas a phwysau hamdden (yn barod, mae cryn dipyn o Fynydd Bangor yn gwrs golff, er ei fod wedi'i integreiddio'n dda i'r dirwedd).<br>• Golygfeydd panoramig o'r copa ar draws y Fenai tuag Ynys Môn a tua'r tir i Barc Cenedlaethol Eryri. |
| **YNYS MÔN** | |
| 11: Cors Malltraeth a'r Cyffiniau | • Tir corsiog isel wedi'i adennill wedi'i amgylchynu â thir ymgodol gyda chymeriad 'twmpathog'.<br>• Cymeriad lled-naturiol cryf; gwledig a sefydlog ysgafn.<br>• Caeau rheolaidd ar dir corsiog wedi'i adennill wedi'i amgylchynu gan dirwedd mwy agos gyda brigiadau craig ac ambell fand o goetir.<br>• Ardal y tir corsiog yn sgorio'n uchel ar draws yr holl agweddau sgorio LANDMAP > Uchel ('Eithriadol' ar gyfer arfarniad cyffredinol y Tirweddau Hanesyddol)<br>• Golygfeydd tua PC Eryri yn dominyddu'r nenlen ddeheuol.<br>• Gyferbyn ag AHNE Ynys Môn ac yn llunio'r gosodiad iddo. |

| Enw/Rhif ATA arfaethedig | Crynodeb o'r cyfiawnhad am y dynodiad |
|---|---|
| 12: Tiroedd Stad Parciau | • Tir parc amlwg/tirwedd stad wedi'i rheoli<br>• Sefydlog ysgafn a hynod heddychlon.<br>• Ardal gyda chymeriad cydlynol i'r dirwedd<br>• Sgôr gyffredinol yn 'Eithriadol' o ran yr agwedd Tirweddau Hanesyddol ('Cymedrol' ar gyfer Gweledol a Synhwyraidd)<br>• Gosodiad i AHNE Ynys Môn a ffordd arfordirol (A5025) |
| 13: Mynydd Parys a'r Llethrau | • Nodwedd unigryw a gweledol amlwg yng ngogledd Môn - nodwedd gref o'r dirwedd a chefnlen i'r morlun.<br>• Arwyddocâd diwylliannol uchel - ymdeimlad cryf o ddiamser<br>• Daeareg a'r defnydd tir yn arwain at dirwedd liwgar amlwg ac ecoleg unigryw<br>• Rhannau mawr o'r ardal (yn enwedig craidd Mynydd Parys) yn sgorio'n uchel ar draws yr agweddau sgorio LANDMAP (> Uchel)<br>• Mynydd Parys yn sgorio 'Eithriadol' ar gyfer yr arfarniad cyffredinol Gweledol a Synhwyraidd.<br>• Gosodiad i AHNE Ynys Môn - y mynydd a'r llethrau'n cwympo tua'r arfordir; rhyngwelededd cryf rhwng y môr, yr arfordir a'r mynydd. |
| 14: Mynydd Mechell a'r Cyffiniau | • Tirwedd 'wyllt' amlwg gyda phocedi o rostir, porfa arw, creigiau a thopograffi twmpathog.<br>• Undod rhwng waliau cerrig a waliau cerrig adeiladau.<br>• Teimlad pellennig a heddychlon; sefydlog ysgafn iawn.<br>• Yr ardal gyfan yn sgorio'n uchel ar draws yr holl agweddau sgorio LANDMAP (> Uchel)<br>• Sgorio'n 'Uchel' ar yr agwedd Weledol a Synhwyraidd ar draws yr ardal<br>• Ffurfio gosodiad i'r AHNE yn y gorllewin<br>• Yr ardal dan bwysau o ffermydd gwynt cyfagos yn gwrthdaro a chymeriad lled-naturiol, pellennig a graddfa fechan yr ardal. |
| 15: Llethrau Coediog Biwmares a Bro Llangoed | • Ardal amlwg o lethrau coediog a thir bugeiliol gyda phocedi o borfa arw a rhostir (yn cynnwys Gwarchodfa Natur Tir Comin Llanddona).<br>• Ardal o heddwch cymedrol ger datblygiad ym Miwmares, Llangoed a Llanddona<br>• Yr ardal gyfan yn 'Eithriadol' yn arfarniad cyffredinol y Dirwedd Ddiwylliannol: cyfnod maith yn cynrychioli amrediad o gyfnodau.<br>• Llethrau Coediog Biwmares wedi sgorio'n 'uchel' ar gyfer Gweledol a Synhwyraidd a chynefinoedd y dirwedd: ardal o goetir llydanddail ym Môn.<br>• Rhyngwelededd â'r Fenai a gogledd Eryri (o dir uwch)<br>• Ffurfio cefnlen i AHNE Ynys Môn a'r aneddiadau cyfagos<br>• Mae'r ardal o dan bwysau o ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth: cyrsiau golff, carafanau, ac ati |
| 16: Tiroedd Stad De Ynys Môn | • Yr ardal gyfan yn 'Eithriadol' yn arfarniad cyffredinol y Dirwedd Hanesyddol ac yn 'Uchel' gyda'r Dirwedd Ddiwylliannol.<br>• Cymeriad stad cryf yn rhan o stad Marcwis Ynys Môn - cysylltu â Thŵr Marcwis ar yr arfordir gerllaw (o fewn yr AHNE).<br>• Ffurfio cefnlen i AHNE Ynys Môn a'r Fenai<br>• Pwysau o ran datblygiadau ynni gwynt |

## Y berthynas rhwng yr ATA arfaethedig a'r dynodiadau tirwedd lleol blaenorol

### Gwynedd

3.2 Mae **Tabl 3.2** isod yn rhoi crynodeb o'r 11 Ardal Gwarchod y Dirwedd blaenorol yng Ngwynedd (a fapiwyd yn ddiweddarach yn Ffigwr 1.2). Mae hwn yn nodi pa AGD sydd wedi'u trosglwyddo'n llwyr neu'n rhannol i'r ATA newydd, ynghyd â'r rhai nad ydynt wedi cael eu cynnwys yn dilyn adolygu tirwedd Gwynedd yn erbyn y meini prawf ATA newydd.

**Tabl 3.2: Y berthynas rhwng AGD Gwynedd a'r ATA arfaethedig 2**

| Ardal Gwarchod y Dirwedd Flaenorol (AGD) | Argymhellion o Adolygiad yr ATA |
|---|---|
| 01: Gorllewin Llŷn | Ymgorffori mewn ATA newydd gyda'r un rhif/enw, ac eithrio ardaloedd bychan o dir wedi'i ddatblygu yn y de ar ymylon Pwllheli ac Abersoch. |
| 02: Porthmadog a'r Cyffiniau | Ymgorffori mewn ATA newydd (02: Porthmadog a Bae Tremadog), gan ymestyn i'r gorllewin i dresio ffin yr Ardal Cymeriad y Dirwedd [3] (9), ac i'r gogledd hyd at ymylon Parc Cenedlaethol Eryri. |
| 03: Porthmadog – Penrhyndeudraeth | Ymgorffori mewn ATA newydd (03: Tirweddau Aber Glaslyn a Dwyryd), gan sicrhau bod y ffiniau yn wastad yn erbyn ymylon y Parc Cenedlaethol ac yn ymestyn i gynnwys yr ardaloedd o'r aber nad ydynt yn rhan o ddynodiad y PC. Eithrio tir wedi'i ddatblygu o amgylch Penrhyndeudraeth a Phorthmadog, gan ddefnyddio agwedd Weledol a Synhwyraidd LANDMAP fel canllaw. |
| 04: Rhosgadfan – Llanberis – Mynydd Llandygai | Dylid cyfuno'r AGD gydag AGD 10 i greu un ATA mwy (07: Ymylon gogledd-orllewin Eryri), gan ffurfio 'coler' o amgylch y Parc Cenedlaethol. Dylai ffin yr ATA newydd ddilyn yn fwy clos gyfuchlinau ffiniau'r uwchdir sy'n disgyn draw o'r Parc Cenedlaethol (yn cynnwys cadw tiroedd comin agored fel unedau cyfan). |
| 05: Parc Gwledig i'r gorllewin o'r Groeslon | Ni argymhellir dynodi'r AGD hon fel ATA newydd gan fod dynodiadau eraill yn cynnig digon o warchodaeth i'r safle yn barod. Mae'r ardal gyfan yn Dir Parc Cofrestredig Gradd I, yn Barc Gwledig ac mae rhan o'r ardal yn Ardal Gadwraeth. Mae natur gaerog y tir parc hefyd yn darparu rhwystr ffisegol rhag unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol a allai |

3 Cyngor Gwynedd (2005, diweddarwyd 2012). *Strategaeth Dirwedd Gwynedd*

| Ardal Gwarchod y Dirwedd Flaenorol (AGD) | Argymhellion o Adolygiad yr ATA |
|---|---|
| | effeithio ar ei osodiad. |
| 06: Cwmorthin | Ni argymhellir dynodi'r AGD hon fel ATA newydd am sawl rheswm; nid yw o faint digonol i fodloni'r meini prawf ymarferol mewn dynodiad ATA; mae wedi'i ddynodi'n barod fel Tirwedd o Bwysigrwydd Hanesyddol Eithriadol ac mae'n bosib y bydd yn rhan o fid ar gyfer statws Safle Treftadaeth y Byd; mae wedi'i ddominyddu gan wastraff chwarel/chwareli a saif mewn 'twll' yn y Parc Cenedlaethol (felly mae polisi cynllunio yn bodoli'n barod i amddiffyn gosodiad y dirwedd warchodedig sy'n amgylchynu'r ardal). Yn ogystal, mae mwyafrif yr ardal wedi sgorio'n 'Isel' yn yr agwedd Weledol a Synhwyraidd o LANDMAP. |
| 07: Cwm Bowydd, Blaenau Ffestiniog | Ni argymhellir dynodi'r AGD hon fel ATA am yr un rhesymau â 06 Cwmorthin uchod. Mae'r ardal gyfan wedi'i harfarnu'n 'Isel' yn yr agwedd Weledol a Synhwyraidd o LANDMAP. |
| 08: Cwm Teigl | Ni argymhellir dynodi'r AGD hon fel ATA am yr un rhesymau â 06 Cwmorthin uchod. Mae dros hanner yr ardal wedi'i harfarnu'n 'Isel' neu 'Cymedrol' yn yr agwedd Weledol a Synhwyraidd o LANDMAP. |
| 09: Ystâd y Faenol a’r Cyffiniau | Ymgorffori'r AGD yn ATA newydd (09: Menai), gan ymestyn i fod yn lefel â thraethlin Y Fenai (a'r ffin sirol). Yn ogystal, dylid ymestyn yr AGD tua'r dwyrain i ffurfio byffer rhwng Bangor a'r Fenai. |
| 10: Bethedsa-Rachub | Dylid cyfuno'r AGD gydag AGD 4 i greu un ATA mwy (07: Ymylon gogledd-orllewin Eryri), gan ffurfio 'coler' o amgylch y Parc Cenedlaethol. Mae’r safle wedi’i leoli ar ffin y gorlifdir. |
| 11: Stad y Penrhyn | Yn yr un modd â'r rhesymeg ar gyfer AGD 05, mae'r ardal hon wedi'i hamddiffyn ddigon yn barod drwy ei ddynodiad cyfredol fel tir parc cofrestredig Gradd II* wedi'i reoli gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae ffiniau caerog yr ystâd yn rhoi gwarchodaeth ffisegol gref yn erbyn datblygiadau allai ddigwydd ar dir sy'n amgylchynu tir y parc. |

### Ynys Môn

3.3 Ac eithrio'r AHNE a'r tir sy'n syrthio o fewn y ffiniau datblygu, fel y diffinir yng Nghynllun Lleol Ynys Môn (1996), mae'r ynys gyfan wedi'i dynodi'n ATA. Ni chynhwyswyd y dynodiad hwn yn y

CDU y rhoddwyd y gorau iddo (rhoddwyd y gorau iddo yn y cam addasiadau arfaethedig, 2005), gan nad oedd tystiolaeth ar gael ar y pryd i gyfiawnhau ei gynnwys. Mae'r chwe ATA arfaethedig wedi'u dylunio i gynrychioli ardaloedd o Fôn sy'n haeddu cael dynodiad yn seiliedig ar y meini prawf sydd wedi'u dethol yn ofalus ar gyfer yr astudiaeth hon (fel y gwelir yn Nhabl 2.3). Er bod hyn yn arwain at leihad yn yr ardal o'r tir sydd wedi'i ddynodi fel ATA yng Nghynllun Lleol Ynys Môn, ei fwriad yw pwysleisio pa rannau o dirwedd yr ynys sydd wir yn haeddu'r lefel ychwanegol o amddiffyniad y mae'r dynodiad yn ei gynnig.

3.4 Gellir dadlau bod y dynodiad 'blanced' ar draws yr ynys wedi arwain at leihau lefel y warchodaeth a ddarparwyd gan yr ATA, gyda chynllunwyr a datblygwyr yn llai abl i wahaniaethu rhwng yr ardaloedd hynny sydd wir yn 'arbennig' a'r rhai y gellid eu rheoli'n briodol drwy bolisïau cynllunio safonol. Drwy gael dewis cadarn o ATA, gyda thystiolaeth fanwl yn cefnogi'r dynodiad, bydd modd i ddatblygiadau newydd ar yr ynys gael eu harwain yn fwy priodol i'r lleoliadau cywir, gan barchu nodweddion arbennig y dirwedd leol ble mae angen hynny fwyaf.

# Datganiadau Gwerth ac Arwyddocâd

# 01: Gorllewin Llŷn

*Map Lleoliad*



*Ffotograffau cynrychioliadol*





Mae'r Ardal Tirwedd Arbennig hon yn cynnwys hanner gorllewinol Pen Llŷn, sy'n lapio o gwmpas ymylon dwyreiniol Garn Fadryn ac yn ymestyn i orllewin cyrion Aberdaron. Lleolir yr ATA gerllaw Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Llŷn.

# Datganiad Gwerth ac Arwyddocâd

| Disgrifiad o'r dirwedd |
|---|
| Llwyfandir arfordirol tonnog a gaiff ei ddylanwadu'n gryf gan agosrwydd y môr.  Mae'r dirwedd yn hynod wledig a cheir llawer o dir amaeth cynhyrchiol wedi'i wasgaru ymhlith phlanhigfeydd cymysg, coetiroedd bychan a phocedi o rostir.  Mae aneddiadau wedi'u gwasgaru, gyda phentrefannau a phentrefi cnewyllol mewn croesfannau, a ffermydd ac eiddo unigol ynysig.  Mae'r ardal yn arddangos cyfoeth o nodweddion hanesyddol ac archeolegol ar raddfa fechan: yn gorwedd yn gyfan gwbl o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol ehangach yng Nghymru (Llŷn ac Ynys Enlli).  Ceir golygfeydd maith ar draws yr ardal at forlin ac ucheldiroedd a ddynodwyd yn AHNE, ynghyd â golygfeydd pell tua'r dwyrain at fynyddoedd Eryri. |

| Sut mae'r ATA yn cwrdd â meini prawf y dynodiad | | |
|---|---|---|
| Ymarferol (rhaid cwrdd â'r ddau faen prawf) | ***Angen*** | Lleolir yr ATA yn uniongyrchol gerllaw AHNE Llŷn. Mae'r ardal dan bwysau yn sgil datblygiadau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, yn enwedig yn y de (e.e. o amgylch cyrchfannau Abersoch a Phwllheli).   Mae natur uwch ac agored y dirwedd yn golygu bod galw am ddatblygiadau ynni gwynt ac mae eu heffeithiau cronnus yn fater allweddol, gyda llethrau deheuol hefyd yn debygol o ddenu cynigion am ddulliau ffotofoltaidd solar. |
| Ymarferol (rhaid cwrdd â'r ddau faen prawf) | ***Cyfanrwydd/cydlyniad cymeriad*** | Mae cymeriad yr ATA yn gyson ar draws yr ardal ac yn ffurfio cyfran fawr o ganol y penrhyn rhwng y morlin a ddynodwyd yn AHNE. |
| Tirwedd (rhaid bodloni un maen prawf o leiaf) | ***Hynodrwydd lleol a naws am le*** | Mae'r ardal yn ffurfio cyfran sylweddol o benrhyn ehangach Llŷn - tirwedd â thopograffi amrywiol ac unigryw gyda naws hanesyddol cryf am le (mae cyfran sylweddol yn cael sgôr 'Uchel' neu 'Eithriadol' yn agwedd Tirluniau Hanesyddol LANDMAP). Mae'r ATA yn arddangos tystiolaeth mewn cyflwr da o esblygiad defnydd tir ac aneddiadau mor gynnar ag oes y cynfyd, yn cynnwys patrymau cymhleth o gaeau wedi'u hamgáu gyda waliau cerrig, gwrychoedd a chloddiau, a chlystyrau o bentrefi hanesyddol o gwmpas croesfannau ar y ffyrdd. |
| Tirwedd (rhaid bodloni un maen prawf o leiaf) | ***Ansawdd y dirwedd*** | Mae hon yn dirwedd gyfan gydag ymdeimlad gwledig cryf - gyda llawer o dir ffermio amaethyddol ond gydag ardaloedd gwerthfawr gyda gwlypdiroedd, rhostir a choetiroedd lled-naturiol yn cyfrannu at frithwaith amrywiol.  Mae'r patrymau cryf o gaeau a'r cymeriad sefydlog ysgafn, gydag ambell ddifrïwr gweledol (planhigfeydd coniffer bychan ac ambell safle carafanau/gwersylla) yn creu tirwedd o ansawdd uchel yn gyffredinol. |
| Tirwedd (rhaid bodloni un maen prawf o leiaf) | ***Ansawdd yr olygfa*** | Ceir rhyngwelededd cryf rhwng yr ATA a'r tirweddau a'r morluniau amgylchynol; mae cymeriad agored ac uchel rhannau o'r llwyfandir yn caniatáu golygfeydd maith a deniadol ar draws y penrhyn a thu hwnt (yn cynnwys mynyddoedd Eryri).  Mae cymeriad yr ATA nad yw wedi'i |

| | | |
|---|---|---|
| | | ddatblygu i raddau helaeth yn cyfleu ansawdd gref i'r dirwedd sy'n wledig a thawel. |
| **Gosodiad tirweddau gwarchodedig (ble fo'n berthnasol)** | ***Gosodiad tirweddau o bwysigrwydd cenedlaethol*** | Mae'r ATA yn darparu gosodiad gwerthfawr a golygfeydd arwyddocaol i AHNE Llŷn sydd wedi'i lleoli'n uniongyrchol gerllaw. Dylai'r cynigion dalu sylw i nodweddion arbennig y dirwedd warchodedig a rhoi ystyriaeth ddyledus i Gynllun Rheoli'r AHNE. |

**Nodweddion Arbennig yr ATA**

Dylai gwaith cynllunio a chynigion rheoli yn yr ATA ac yng ngosodiad ei thirwedd roi ystyriaeth i'r nodweddion arbennig isod:

- Cymeriad llonydd a gwledig y dirwedd;
- Ei safle uwch ac agored - yn creu rhyngweledvedd cryf ar draws y dirwedd ledled y penrhyn, yn cynnwys golygfeydd sylweddol at yr AHNE;
- Y patrymau cymhleth yn y dirwedd; yn cynnwys ardaloedd ar raddfa fechan, caeau afreolaidd a thyddynnod o'r 19eg ganrif;
- Yr amrediad eithriadol o nodweddion hanesyddol ac archeolegol, o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig Llŷn ac Ynys Enlli;
- Pocedi gwerthfawr o gynefinoedd lled-naturiol, yn cynnwys rhostir, cyforgors a ffen (e.e. SDdGA Cors Hirdre a SDdGA Cors Geirch);
- Patrwm gwasgaredig yr anheddiad o bentrefi cnewyllol, pentrefannau a ffermydd gwasgaredig; a
- Rôl bwysig y dirwedd fel gosodiad i AHNE Llŷn.

**Cyfeiriad at yr Asesiad Cymeriad Tirwedd lleol a LANDMAP.**

*Cysylltiad gyda'r Asesiad Cymeriad Tirwedd*

Mae mwyafrif yr ATA yn ACT 7: Gorllewin Llŷn. Lleolir rhannau bychan o ymylon dwyreiniol yr ATA yn ACT 6 (Arfordir Gogleddol Llŷn) ac ACT 10: Canol Llŷn (Canllaw Tirwedd Gwynedd, 2005 - diweddarwyd 2012).

## Matrics o elfennau ardaloedd agwedd LANDMAP

| LANDMAP Aspect Area Matrix - SLA : Western Llyn | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Aspect area** | **UID** | **Area name** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **Overall Evaluation** |
| Geological Landscape | GWNDDGL145 | Y Ffor | H | H | H | M | | | | | | High |
| | GWNDDGL144 | Llithfaen | H | O | O | O | | | | | | Outstanding |
| | GWNDDGL143 | Llannor | M | M | M | M | | | | | | Moderate |
| | GWNDDGL142 | Llanbedrog | H | H | H | H | | | | | | High |
| | GWNDDGL141 | Mynytho | H | O | O | O | | | | | | Outstanding |
| | GWNDDGL138 | Llangwnnadl | O | O | O | O | | | | | | Outstanding |
| | GWNDDGL137 | Pen y groesion | H | O | O | H | | | | | | Outstanding |
| | GWNDDGL136 | Rhiw | O | O | O | H | | | | | | Outstanding |
| | GWNDDGL135 | Pwllheli | L | L | M | M | | | | | | Moderate |
| | GWNDDGL134 | Hell's Mouth | H | O | O | O | | | | | | Outstanding |
| | GWNDDGL133 | Aberdaron | H | H | H | H | | | | | | High |
| Landscape Habitats | GWNDDLH489 | | L | L | M | L | M | L | M | M | | Low |
| | GWNDDLH471 | | M | L | M | L | M | M | M | M | | Moderate |
| | GWNDDLH498 | | L | M | M | M | M | M | M | M | | Moderate |
| | GWNDDLH497 | | H | H | L | M | M | H | H | M | | High |
| | GWNDDLH496 | | M | M | M | M | L | M | M | M | | Moderate |
| | GWNDDLH495 | | H | H | M | M | M | M | H | M | | High |
| | GWNDDLH494 | | L | M | M | M | M | L | M | M | | Moderate |
| | GWNDDLH493 | | H | H | M | M | M | H | H | H | | High |
| | GWNDDLH492 | | L | L | M | L | L | L | L | L | | Low |
| | GWNDDLH502 | | M | M | U | M | M | M | H | M | | High |
| | GWNDDLH490 | | M | M | M | M | M | H | M | M | | Moderate |
| | GWNDDLH503 | | L | M | M | M | M | H | M | M | | Moderate |
| | GWNDDLH486 | | L | L | M | L | L | L | L | L | | Low |
| | GWNDDLH485 | | M | H | M | M | M | M | H | H | | High |
| | GWNDDLH484 | | M | M | M | M | L | M | M | L | | Moderate |
| | GWNDDLH477 | | M | M | H | M | H | M | M | L | | Moderate |
| | GWNDDLH476 | | H | H | M | H | U | M | H | M | | High |
| | GWNDDLH474 | | M | M | M | H | U | M | M | U | | Moderate |
| | GWNDDLH473 | | H | H | M | H | M | H | M | U | | Moderate |
| | GWNDDLH472 | | H | H | M | H | M | H | H | H | | High |
| | GWNDDLH491 | | H | H | M | H | H | H | H | M | | High |
| | GWNDDLH514 | | H | H | M | M | M | H | H | M | | High |
| | GWNDDLH895 | Coastal strip Carreg - Groesffordd | H | H | L | M | M | H | H | H | | Outstanding |
| | GWNDDLH678 | | L | L | M | L | M | L | L | M | | Moderate |
| | GWNDDLH677 | | M | M | M | M | L | M | M | M | | Moderate |
| | GWNDDLH530 | | H | H | L | H | H | M | H | U | | High |
| | GWNDDLH527 | | L | L | M | L | M | M | L | L | | Low |
| | GWNDDLH526 | | L | M | M | H | U | H | M | L | | Moderate |
| | GWNDDLH519 | | M | M | M | M | M | M | M | L | | Moderate |
| | GWNDDLH518 | | H | O | M | H | M | O | O | H | | Outstanding |
| | GWNDDLH499 | | M | L | M | L | L | L | M | U | | Moderate |
| | GWNDDLH515 | | L | L | M | L | L | L | L | L | | Low |
| | GWNDDLH940 | Castell Grug to Abersoch North | M | M | U | M | M | M | M | H | | High |
| | GWNDDLH513 | | M | M | H | M | M | M | M | L | | Moderate |
| | GWNDDLH512 | | O | O | L | H | M | O | O | O | | Outstanding |
| | GWNDDLH510 | | H | H | M | H | M | H | H | M | | High |
| | GWNDDLH508 | | M | M | M | H | H | H | H | U | | High |
| | GWNDDLH507 | | H | H | M | M | M | H | H | M | | High |
| | GWNDDLH506 | | M | H | M | H | H | H | H | M | | High |
| | GWNDDLH505 | | M | L | M | L | M | M | L | L | | Low |
| | GWNDDLH504 | | H | H | L | M | M | H | H | M | | High |
| | GWNDDLH516 | | H | H | L | M | L | H | H | H | | High |

1.

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Visual & Sensory | GWNDDVS516 | Garn Boduan | H | H | H | M | | | | | | High |
| | GWNDDVS090 | Llyn Coast | H | M | H | H | | | | | | High |
| | GWNDDVS059 | Llaniestyn | H | H | H | M | | | | | | High |
| | GWNDDVS057 | Afon Daron | M | H | M | M | | | | | | Moderate |
| | GWNDDVS056 | North-west plateau of Lleyn | H | M | H | M | | | | | | Moderate |
| | GWNDDVS055 | Mynydd Rhiw | H | M | H | H | | | | | | High |
| | GWNDDVS054 | Afon Horon | M | H | M | M | | | | | | Moderate |
| | GWNDDVS053 | Llandegwning | H | M | M | M | | | | | | Moderate |
| | GWNDDVS051 | Afon Soch | M | M | M | M | | | | | | Moderate |
| | GWNDDVS050 | Abersoch | H | M | M | M | | | | | | Moderate |
| | GWNDDVS049 | Morfa Gors | M | M | M | M | | | | | | Moderate |
| | GWNDDVS048 | Mynydd Tir-y-Cwmwd | H | H | M | H | | | | | | High |
| | GWNDDVS047 | Llanbedrog | M | M | M | M | | | | | | Moderate |
| | GWNDDVS046 | Penrhos | M | H | M | M | | | | | | Moderate |
| | GWNDDVS044 | Boduan-central plateau of Lleyn | M | M | M | M | | | | | | Moderate |
| Historic Landscape | GWNDDHL183 | Mynytho | H | H | | M | | | | | | High |
| | GWNDDHL006 | Fieldscape around Edern | M | L | | U | | | | | | Moderate |
| | GWNDDHL379 | Botwnnog plateau | M | H | | U | | | | | | Moderate |
| | GWNDDHL350 | Rhyd-y-clafdy | M | M | | U | | | | | | Moderate |
| | GWNDDHL345 | Rhoshirwaun enclosures | H | O | | U | | | | | | Outstanding |
| | GWNDDHL293 | Llangian & Llanengan | H | H | | H | | | | | | High |
| | GWNDDHL280 | Aberdaron plateau | H | H | | H | | | | | | High |
| | GWNDDHL451 | Nefyn & Morfa Nefyn | O | O | | O | | | | | | Outstanding |
| | GWNDDHL190 | Woods and fields west of Rhyd-y-Clafdy | M | H | | U | | | | | | High |
| | GWNDDHL487 | Fieldscape around Llanfihangel | M | M | | U | | | | | | Moderate |
| | GWNDDHL100 | Cefn Leisiog | H | M | | U | | | | | | Moderate |
| | GWNDDHL027 | Neigwl Plain (Hell's Mouth) | H | H | | H | | | | | | High |
| | GWNDDHL018 | Coastal fields around Abersoch | L | M | | U | | | | | | Moderate |
| | GWNDDHL014 | Fieldscape north of Penrhos | L | L | | U | | | | | | Moderate |
| | GWNDDHL013 | Fieldscape, north coast of Llyn | M | M | | U | | | | | | Moderate |
| | GWNDDHL007 | Edern | M | H | | U | | | | | | High |
| | GWNDDHL279 | Mynydd Rhiw | O | O | | H | | | | | | Outstanding |
| | GWNDDHL781 | Cors Geirch | L | L | | M | | | | | | Moderate |
| | GWNDDHL921 | Fieldscape east of Llannor | L | L | | L | | | | | | Low |
| | GWNDDHL905 | Llanbedrog | H | H | | U | | | | | | High |
| | GWNDDHL864 | Mynydd Nefyn | O | O | | H | | | | | | Outstanding |
| | GWNDDHL842 | Fieldscape around Pentreuchaf | H | H | | U | | | | | | High |
| | GWNDDHL835 | Coed Cefnamwlch | U | M | | U | | | | | | Moderate |
| | GWNDDHL829 | Boduan parkland | H | H | | H | | | | | | High |
| | GWNDDHL435 | Carneddol | L | M | | U | | | | | | Moderate |
| | GWNDDHL813 | Llaniestyn valley | H | H | | U | | | | | | High |
| | GWNDDHL988 | Tudweiliog | H | H | | U | | | | | | High |
| | GWNDDHL734 | Fieldscape around Groesffordd | M | M | | U | | | | | | High |
| | GWNDDHL720 | Botwnnog | M | M | | U | | | | | | High |
| | GWNDDHL696 | Efailnewydd | M | H | | M | | | | | | High |
| | GWNDDHL684 | Penrhos airfield & camp | O | O | | H | | | | | | Outstanding |
| | GWNDDHL564 | Cefnamwlch | H | O | | U | | | | | | Outstanding |
| | GWNDDHL562 | Coastal flats around Llanbedrog | M | L | | M | | | | | | Moderate |
| | GWNDDHL817 | Nanhoron | H | H | | M | | | | | | High |
| Cultural Landscape | GWNDDCL047 | Penrhos | H | H | H | O | H | H | H | O | M | High |
| | GWNDDCL046 | Llanbedrog | H | H | H | M | H | H | H | H | H | High |
| | GWNDDCL041 | Mynydd Rhiw | H | O | O | M | O | O | L | M | M | Outstanding |
| | GWNDDCL040 | Llyn (Western) | O | O | O | H | O | O | H | H | O | Outstanding |
| | GWNDDCL037 | Llyn (Central) | O | O | O | H | O | H | H | H | O | Outstanding |

# 02: Porthmadog a Bae Tremadog

*Map Lleoliad*



*Ffotograffau cynrychioliadol*





Lleolir yr Ardal Tirwedd Arbennig hon rhwng Cricieth a Phorthmadog, ac mae'n cynnwys glannau gogleddol Bae Tremadog hyd at ymylon Parc Cenedlaethol Eryri ym Mhenmorfa.

# Datganiad Gwerth ac Arwyddocâd

| **Disgrifiad o'r dirwedd** | | |
|---|---|---|
| Dyma dirwedd unigryw sy'n ffurfio trawsnewidiad o fynyddoedd Eryri i'r arfordir. Mae rhan ogleddol yr ATA yn cynnwys tirffurf gerwin a thwmpathog gyda thir pori bras a llu o goetiroedd, gyda cherrig brig, waliau cerrig sychion ac adeiladau cerrig yn darparu unoliaeth i'r dirwedd. Mae ei gymeriad gwledig ac ucheldirol cryf yn ymdoddi tua'r de oddi wrth y Parc Cenedlaethol i'r arfordir ble mae twyni tywod a thraeth tywodlyd llydan Morfa Bychan yn darparu gosodiad i ehangdir agored aber Afon Glaslyn. Ceir golygfeydd deniadol ar y tir uwch dros Draeth Bach at dde Eryri ac ar hyd yr arfordir. Yn ei dro, mae mynyddoedd Eryri yn ffurfio cefnlen fawreddog a golygfaol i'r ATA. | | |
| **Sut mae'r ATA yn cwrdd â meini prawf y dynodiad** | | |
| **Ymarferol (rhaid cwrdd â'r ddau faen prawf)** | ***Angen*** | Mae'r ATA yn darparu swyddogaeth bwysig fel gosodiad ac 'adwy' arfordirol i Eryri. Oherwydd ei lleoliad y tu allan i'r Parc Cenedlaethol a phoblogrwydd yr arfordir, mae'r ardal dan bwysau o ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth (e.e. datblygiad carafan/traeth o gwmpas Morfa Bychan). Mae pwysau datblygu eraill yn cynnwys cynigion am isadeiledd mawr a lledaeniad llinellol datblygiadau ar hyd y ffyrdd i Borthmadog. |
| | ***Cyfanrwydd/cydlyniad cymeriad*** | Mae'r ATA yn cynnwys ardal sydd â chymeriad cydlynol sydd wedi'i lleoli rhwng aneddiadau arfordirol Cricieth a Phorthmadog. Mae'n ymestyn yn fewndirol i ymylon y Parc Cenedlaethol, yn dilyn trywydd ffiniau gogleddol a gorllewinol Ardal Cymeriad Tirwedd 9. |
| **Tirwedd (rhaid cwrdd ag un maen prawf o leiaf)** | ***Hynodrwydd lleol a naws am le*** | Mae bryniau gerwin y dirwedd, y brithwaith o batrymau sy'n gorchuddio'r tir, golygfeydd deniadol a'r morlin ysgubol yn cyfuno i greu naws unigryw ac amrywiol am le. |
| | ***Ansawdd y dirwedd*** | Gwerthusir mwyafrif y dirwedd fel 'Uchel' yn agwedd Gweledol a Synhwyraidd LANDMAP oherwydd ei gymeriad gwledig cryf a'i drawsnewidiad ucheldirol-arfordirol unigryw. Mae'n ffurfio cefnlen olygfaol i dref hanesyddol Porthmadog. Ychydig iawn o bethau sy'n tynnu oddi wrtho. |
| | ***Ansawdd yr olygfa*** | Mae'r berthynas weledol gref rhwng yr ATA a mynyddoedd Eryri, Traeth Bach a morlin gorllewinol Gwynedd yn cyfrannu'n helaeth at ansawdd uchel y golygfeydd a gysylltir â'r dirwedd hon. Mae ganddi ansawdd gwledig hydreiddiol sydd wedi cael ei effeithio'n lleol gan safleoedd carafannau/gwersylla o gwmpas Morfa Bychan a datblygiadau sy'n lledaenu o Borthmadog. |
| **Gosodiad tirweddau gwarchodedig (ble fo'n berthnasol)** | ***Gosodiad tirweddau o bwysigrwydd cenedlaethol*** | Mae'r ATA yn darparu gosodiad golygfaol i Barc Cenedlaethol Eryri. Dylai'r cynigion dalu sylw i nodweddion arbennig y dirwedd warchodedig a rhoi ystyriaeth ddyledus i Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. |

| Nodweddion Arbennig yr ATA |
|---|
| Dylai gwaith cynllunio a chynigion rheoli yn yr ATA ac yng ngosodiad ei thirwedd roi ystyriaeth i'r nodweddion arbennig isod:<br>• Cymeriad gwledig a llonydd y dirwedd;<br>• Y golygfeydd maith ac ysgubol ar draws aber Afon Glaslyn, Traeth Bach, arfordir a mynyddoedd Eryri;<br>• Y patrymau amrywiol sy'n gorchuddio'r tir, gyda chaeau afreolaidd wedi'u terfynu gyda waliau cerrig ac wedi'u britho â blociau o dir pori agored, bras a choetiroedd;<br>• Yr ardaloedd gwerthfawr o gynefinoedd lled-naturiol (glaswelltir heb ei wella, rhostir, coetiroedd, twyni tywod a gwlypdiroedd arfordirol), yn cynnwys Tiroedd a Glannau Rhwng Cricieth a SDdGA Afon Glaslyn ac ACA Pen Llŷn a'r Sarnau;<br>• Y cymeriad sefydlog ysgafn o bentrefannau gwasgaredig ac anheddau ynysig;<br>• Rôl bwysig y dirwedd fel gosodiad i Barc Cenedlaethol Eryri a chefnlen i dref hanesyddol Porthmadog. |
| **Cyfeiriad at yr Asesiad Cymeriad Tirwedd lleol a LANDMAP.** |
| *Cysylltiad gyda'r Asesiad Cymeriad Tirwedd*<br>Mae'r cyfan o'r ATA yn ACT 7: Porthmadog (Canllaw Tirwedd Gwynedd, 2005 - diweddarwyd 2012). |

## Matrics o elfennau ardaloedd agwedd LANDMAP

| LANDMAP Aspect Area Matrix - SLA : Porthmadog and Tremadog Bay | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Aspect area** | **UID** | **Area name** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **Overall Evaluation** |
| Geological Landscapes | SNPGL029 | Cwm Pennant | U | O | O | O | | | | | | Outstanding |
| | SNPGL001 | Mochras Farm | U | H | O | O | | | | | | Outstanding |
| | GWNDDGL147 | Porthmadog | H | O | O | H | | | | | | Outstanding |
| | GWNDDGL146 | Llanystumdwy | M | H | O | M | | | | | | Outstanding |
| | GWNDDGL023 | Morfa Bychan | L | L | M | L | | | | | | Moderate |
| | GWNDDGL022 | Traeth Mawr | L | L | L | L | | | | | | Moderate |
| Landscape Habitats | GWNDDLH573 | | M | H | M | M | M | M | H | M | | High |
| | GWNDDLH564 | | L | L | L | L | L | L | L | L | | Low |
| | GWNDDLH565 | | H | H | H | H | M | H | H | M | | High |
| | GWNDDLH566 | | H | H | L | H | L | H | H | H | | High |
| | GWNDDLH567 | | L | L | M | L | M | L | L | M | | Low |
| | GWNDDLH568 | | O | O | M | H | M | H | O | U | | Outstanding |
| | GWNDDLH560 | | H | O | H | U | H | H | H | H | | Outstanding |
| | GWNDDLH570 | | H | H | M | H | M | M | H | M | | High |
| | SNPLH316 | | O | O | M | U | M | U | O | U | | Outstanding |
| | GWNDDLH576 | | L | L | L | L | L | L | L | M | | Moderate |
| | GWNDDLH578 | | M | M | L | L | M | L | M | H | | Moderate |
| | GWNDDLH579 | | H | H | M | M | M | H | H | H | | High |
| | GWNDDLH610 | | H | H | L | M | M | H | H | H | | High |
| | GWNDDLH682 | | H | H | U | M | M | M | H | M | | High |
| | SNPLH136 | | L | L | M | U | U | U | L | O | | Moderate |
| | GWNDDLH569 | | M | M | L | L | M | M | M | L | | Moderate |
| Visual & Sensory | SNPVS121 | Prenteg Margins | H | M | H | M | | | | | | High |
| | SNPVS053 | Prenteg rolling farmland | M | M | M | M | | | | | | Moderate |
| | SNPVS038 | Morfa Harlech | H | M | H | H | | | | | | High |
| | GWNDDVS089 | Morfa Bychan | M | M | M | M | | | | | | Moderate |
| | GWNDDVS082 | Shingle beaches throughout | H | M | M | H | | | | | | Moderate |
| | GWNDDVS081 | Traeth Bach | H | H | H | H | | | | | | High |
| | GWNDDVS075 | Black Rock levels | H | H | M | M | | | | | | Moderate |
| | GWNDDVS073 | Criccieth | M | M | M | M | | | | | | Moderate |
| | GWNDDVS072 | Llyn Ysturnllyn | M | H | M | M | | | | | | Moderate |
| | GWNDDVS071 | Porthmadog & Tremadog | M | M | M | M | | | | | | Moderate |
| | GWNDDVS070 | Ynys Cyngar | H | H | H | H | | | | | | High |
| | GWNDDVS066 | Mynydd Ednyfed north of Criccieth | H | M | M | M | | | | | | Moderate |
| | GWNDDVS065 | Bryn Neuadd | M | M | M | M | | | | | | Moderate |
| | GWNDDVS064 | Moel-y-Gest | H | M | H | M | | | | | | High |
| | GWNDDVS062 | Traeth Mawr | M | H | H | M | | | | | | High |
| Historic Landscapes | SNPHL219 | Harlech dunes | M | M | | M | | | | | | Moderate |
| | SNPHL138 | Gesail Gyfarch to Braich y Big | O | O | | H | | | | | | Outstanding |
| | GWNDDHL880 | Porthmadog harbour | O | O | | M | | | | | | Outstanding |
| | GWNDDHL687 | Moel y Gest | O | H | | H | | | | | | High |
| | GWNDDHL674 | Cricieth | H | O | | H | | | | | | Outstanding |
| | GWNDDHL547 | Porthmadog | H | O | | O | | | | | | Outstanding |
| | GWNDDHL104 | Glaslyn estuary - reclaimed land | O | H | | M | | | | | | Outstanding |
| | GWNDDHL020 | Morfa Bychan | L | M | | H | | | | | | Moderate |
| | GWNDDHL010 | Wern | H | U | | H | | | | | | Outstanding |
| | GWNDDHL009 | Eastern Eifionydd fieldscape | M | H | | U | | | | | | Moderate |
| Cultural Landscapes | SNPCL016 | Cwm Pennant | H | M | M | H | H | H | M | H | M | High |
| | GWNDDCL056 | Railway-Pwllheli to Dyfi Junction | H | H | H | H | H | O | H | H | O | High |
| | GWNDDCL054 | Portmadoc/Tremadoc/Penrhyndeudraeth | O | O | O | O | O | O | H | O | O | Outstanding |
| | GWNDDCL053 | Morfa Bychan/Blackrock sands/Garregwen | H | M | H | H | M | M | M | M | M | High |
| | GWNDDCL051 | Criccieth | O | O | O | O | O | O | H | O | H | Outstanding |
| | GWNDDCL034 | Eifionydd (Eastern) | M | O | O | O | O | O | H | O | O | Outstanding |
| | GWNDDCL008 | Principal roads | H | H | M | M | H | H | H | H | H | High |

# 03: Tirweddau Aber Afon Glaslyn a Dwyryd

*Map Lleoliad*



*Ffotograffau cynrychioliadol (all y Grŵp Llywio ddarparu unrhyw ffotograffau?)*

Mae'r Ardal Tirwedd Arbennig hon yn cynnwys tir fferm isel adferedig a chorsydd Traeth Mawr a glannau dwyreiniol/deheuol aber Traeth Bach, yn cynnwys pentref hanesyddol Portmeirion.

# Datganiad Gwerth ac Arwyddocâd

| **Disgrifiad o'r dirwedd** | | |
|---|---|---|
| Mae hon yn dirwedd ddiwylliannol a gweledol unigryw sy'n cynnwys corsydd gwastad adferedig Traeth Mawr a glannau Aber Traeth Bach. Rhan ogleddol yr ATA yw Traeth Mawr: tirwedd agored ar raddfa fawr o dir pori a gwlypdiroedd wedi sychu wedi'u gormesu gan ffurf ddolennog Afon Dwyryd. Cydnabyddir y dirwedd ddiwylliannol hon yn genedlaethol, ac mae'n cael ei chynnwys yn gyfan gwbl o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Aberglaslyn yng Nghymru. Torrir ar y tir pori gwastad gydag allgreigiau coediog unigryw sy'n ffurfio tir gerwin yn codi fel 'ynysoedd' o'r corsydd. Tua'r de, cyfarfu afonydd Glaslyn a Dwyryd i ffurfio Aber Traeth Bach ar raddfa fawr gyda phonciau llaid/traethellau yn gormesu'r dirwedd arfordirol. Mae pentref Eidalaidd Portmeirion, a ddyluniwyd gan Syr Clough Williams-Ellis yn swatio ar lannau gogleddol yr aber - ond mae'r dirwedd wedi sefydlu'n wasgarog mewn mannau eraill. Pwysleisir yr ymdeimlad arfordirol yma gan olygfeydd ar hyd yr arfordir sy'n cyferbynnu'n gryf â'r mynyddoedd sy'n ffurfio cefndir mewndirol yr ATA. Mae golygfeydd godidog at ac oddi ar fynydd y Cnicht a Mynyddoedd y Moelwyn yn nodwedd benodol o'r dirwedd hon. | | |
| **Sut mae'r Ardal Tirwedd Arbennig (ATA) yn cwrdd â meini prawf y dynodiad** | | |
| **Ymarferol** (rhaid cwrdd â'r ddau faen prawf) | ***Angen*** | Mae'r ATA yn gweithredu fel adwy i Barc Cenedlaethol Eryri sy'n ffurfio ffin fewndirol yr ardal. Er ei bod wedi'i sefydlu'n wasgarog a chydag absenoldeb cyffredinol o ddatblygiadau modern, mae'r ATA yn ffinio ag aneddiadau Porthmadog, Minffordd a Phenrhyndeudraeth. Mae hyn yn cynnwys y datblygiadau masnachol/diwydiannol ar eu cyrion sy'n dechrau tresmasu ar y dirwedd amgylchynol. Mae'r ATA dan bwysau gan isadeiledd ar raddfa fawr yn cynnwys mastiau a pheilonau. |
| | ***Cyfanrwydd/cydlyniad cymeriad*** | Mae'r ATA yn cynnwys rhannau o Aber Traeth Bach nad ydynt wedi'u dynodi ac yn cwmpasu ehangder cyfan corsydd adferedig Traeth Mawr a amgylchynir gan dir uwch Eryri. Mae'n swatio o fewn fframwaith yr ACT ond yn eithrio ardaloedd datblygu ym Mhenrhyndeudraeth, Minffordd a Phorthmadog. |
| **Tirwedd** (rhaid cwrdd ag un maen prawf o leiaf) | ***Hynodrwydd lleol a naws am le*** | Mae tirweddau gwastad agored Traeth Mawr ac aber ysgubol Traeth Bach yn cyferbynnu'n fawr â bryniau a mynyddoedd gerwin y Parc Cenedlaethol cyfagos, sy'n creu tirwedd unigryw. Mae arwyddocâd diwylliannol yr ardal yn cyfrannu llawer at ei synnwyr o le: Roedd Traeth Mawr yn un o'r mentrau adfer tir mwyaf uchelgeisiol yng Nghymru yn yr 19eg ganrif , ac roedd yn cynnwys Cob blaenllaw Porthmadog (a ddisgrifiwyd unwaith fel 'Rhyfeddod Cymru'). Mae pentref Eidalaidd Portmeirion hefyd yn nodwedd unigryw o'r dirwedd. |
| | ***Ansawdd tirwedd*** | Mae mwyafrif helaeth yr ATA wedi sgorio'n 'Uchel' yn Elfen Weledol a Synhwyrol LANDMAP gyda'r dirwedd o gwmpas Portmeirion wedi'i gwerthuso fel 'Eithriadol'. Yr unig ddifriwyr yn y dirwedd yw coridorau'r ffordd a'r rheilffordd sy'n croesi drwyddi, yn ogystal â'r ymyrraeth weledol/sŵn o chwarel Minffordd a datblygiadau sy'n lledaenu |

| | | |
|---|---|---|
| | | tuag allan o'r prif aneddiadau. |
| | ***Ansawdd yr olygfa*** | Mae'r berthynas weledol gref rhwng yr ATA a mynyddoedd Eryri (mynydd y Cnicht a mynyddoedd y Moelwyn yn benodol) yn cyfrannu'n helaeth at ansawdd uchel y golygfeydd a gysylltir â'r dirwedd hon, a gaiff eu pwysleisio ymhellach gan adlewyrchiadau o'r dŵr sy'n cynhyrchu ansawdd golau arbennig. Mae golygfeydd o'r arfordir a'r aber o Bortmeirion hefyd yn mwyhau ansawdd golygfeydd y dirwedd. Yn gyffredinol, mae hon yn dirwedd tawel a naturiolaidd. |
| **Gosodiad tirweddau gwarchodedig (ble fo'n berthnasol)** | ***Gosodiad tirweddau o bwysigrwydd cenedlaethol*** | Mae'r ATA yn darparu gosodiad i Barc Cenedlaethol Eryri, gyda chysylltiadau gweledol a diwylliannol cryf â'r dirwedd warchodedig. Dylai'r cynigion dalu sylw i nodweddion arbennig y dirwedd warchodedig a rhoi ystyriaeth ddyledus i Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. |

**Nodweddion Arbennig yr ATA**

Dylai gwaith cynllunio a chynigion rheoli yn yr ATA ac yng ngosodiad ei thirwedd roi ystyriaeth i'r nodweddion arbennig isod:

- Cymeriad llonydd, gwledig a chyffredinol agored y dirwedd;
- Y berthynas ddiwylliannol a weledol gref rhwng yr ATA a'r Parc Cenedlaethol (yn enwedig golygfeydd at fynydd y Cnicht a mynyddoedd y Moelwyn);
- Gyda thir pori wedi sychu a chorsydd pori arfordirol, mae'r tir naturiolaidd yn cynnwys gwastadeddau llaid a thraethellau, coetiroedd a phrysgoed llydanddail ar dir uwch a dŵr agored.
- Cynefinoedd sy'n bwysig yn genedlaethol a rhyngwladol o fewn SDdGA a GNC Morfa Harlech; ACA Pen Llŷn a'r Sarnau, SDdGA Glaslyn a SDdGA Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd.
- Cymeriad sefydlog gwasgarog gyda'r anheddiad Eidalaidd unigryw ym Mhortmeirion (Ardal Cadwraeth); ac
- Arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol y dirwedd sydd yn gyfan gwbl o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Aberglaslyn yng Nghymru.

**Cyfeiriad at yr Asesiad Cymeriad Tirwedd lleol a LANDMAP.**

*Cysylltiad gyda'r Asesiad Cymeriad Tirwedd*

Mae'r cyfan o'r ATA yn ACT 7: Porthmadog (Canllaw Tirwedd Gwynedd, 2005 - diweddarwyd 2012).

## Matrics o elfennau ardaloedd agwedd LANDMAP

| LANDMAP Aspect Area Matrix - SLA : Glaslyn & Dwyryd Estuary Landscapes | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Aspect area** | **UID** | **Area name** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **Overall Evaluation** |
| Geological Landscapes | SNPGL120 | Nanmo | U | O | O | O | | | | | | Outstanding |
| | SNPGL029 | Cwm Pennant | U | O | O | O | | | | | | Outstanding |
| | SNPGL028 | Afon Glaslyn | U | O | O | O | | | | | | Outstanding |
| | SNPGL027 | Cwm Croesor | U | H | O | O | | | | | | Outstanding |
| | SNPGL025 | Pentrhyndeudraeth | U | H | H | H | | | | | | High |
| | SNPGL022 | Traeth Mawr | L | L | L | L | | | | | | Low |
| | SNPGL021 | Afon Dwyryd | U | L | L | L | | | | | | Low |
| | SNPGL003 | Morfa Harlech | U | L | L | L | | | | | | Low |
| | SNPGL001 | Mochras Farm | U | H | O | O | | | | | | Outstanding |
| | GWNDDGL147 | Porthmadog | H | O | O | H | | | | | | Outstanding |
| | GWNDDGL133 | Aberdaron | H | H | H | H | | | | | | High |
| | GWNDDGL027 | Cwm Croesor | H | H | O | O | | | | | | Outstanding |
| | GWNDDGL025 | Penrhyndeudraeth | H | H | H | H | | | | | | High |
| | GWNDDGL022 | Traeth Mawr | L | L | L | L | | | | | | Moderate |
| Landscape Habitats | SNPLH316 | | O | O | M | U | M | U | O | U | | Outstanding |
| | SNPLH171 | | O | O | U | U | U | U | O | O | | Outstanding |
| | SNPLH168 | | H | H | U | U | U | U | H | O | | High |
| | SNPLH151 | | H | H | U | U | U | U | H | H | | High |
| | SNPLH150 | | L | M | U | U | U | U | M | H | | Moderate |
| | SNPLH149 | | H | H | U | U | M | U | H | O | | High |
| | SNPLH147 | | L | M | U | U | U | U | M | H | | Moderate |
| | SNPLH146 | | H | H | M | U | U | U | H | O | | High |
| | SNPLH143 | | L | L | U | U | U | U | L | U | | Low |
| | GWNDDLH578 | | M | M | L | L | M | L | M | H | | Moderate |
| | GWNDDLH577 | | H | H | M | M | M | H | H | H | | High |
| | GWNDDLH576 | | L | L | L | L | L | L | L | M | | Moderate |
| | GWNDDLH575 | | H | H | M | M | U | H | H | H | | High |
| | GWNDDLH574 | | H | O | L | H | M | H | H | O | | Outstanding |
| | GWNDDLH568 | | O | O | M | H | M | H | O | U | | Outstanding |
| Visual & Sensory | SNPVS036 | Coed Ystymgwern coastal farmland | H | M | M | M | | | | | | Moderate |
| | GWNDDVS063 | Penrhyndeudraeth environs | M | M | M | M | | | | | | Moderate |
| | GWNDDVS069 | Penrhyndeudraeth | M | M | L | M | | | | | | Moderate |
| | GWNDDVS071 | Porthmadog & Tremadog | M | M | M | M | | | | | | Moderate |
| | GWNDDVS080 | Marsh | H | H | H | H | | | | | | High |
| | GWNDDVS081 | Traeth Bach | H | H | H | H | | | | | | High |
| | GWNDDVS062 | Traeth Mawr | M | H | H | M | | | | | | High |
| | SNPVS012 | Conifer plantation | L | H | H | L | | | | | | Moderate |
| | SNPVS121 | Prenteg Margins | H | M | H | M | | | | | | High |
| | SNPVS038 | Morfa Harlech | H | M | H | H | | | | | | High |
| | SNPVS039 | Vale of Ffestiniog | M | H | H | H | | | | | | High |
| | SNPVS048 | Snowdon uplands | O | H | O | H | | | | | | Outstanding |
| | SNPVS052 | Garreg | M | M | M | M | | | | | | Moderate |
| | SNPVS115 | | H | M | H | H | | | | | | High |
| | SNPVS119 | | M | H | M | M | | | | | | High |
| | GWNDDVS088 | Portmeirion | O | H | M | O | | | | | | Outstanding |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Historic Landscapes | SNPHL058 | Dwyryd valley | O | O | | M | | | | | | Outstanding |
| | GWNDDHL274 | Ffestiniog railway | O | O | | H | | | | | | Outstanding |
| | GWNDDHL338 | Tan-yr Allt | H | M | | M | | | | | | High |
| | GWNDDHL456 | Garreg | O | H | | M | | | | | | Outstanding |
| | GWNDDHL472 | Intermediary slopes of the Moelwyns | O | H | | H | | | | | | Outstanding |
| | GWNDDHL535 | Penrhyn-Garth | H | H | | H | | | | | | High |
| | GWNDDHL547 | Porthmadog | H | O | | O | | | | | | Outstanding |
| | GWNDDHL556 | Penrhyndeudraeth | H | O | | M | | | | | | High |
| | GWNDDHL557 | Minffordd quarry | H | H | | M | | | | | | Moderate |
| | GWNDDHL833 | Portmeirion | O | O | | M | | | | | | Outstanding |
| | GWNDDHL104 | Glaslyn estuary - reclaimed land | O | H | | M | | | | | | Outstanding |
| | GWNDDHL937 | Tremadoc | O | O | | H | | | | | | Outstanding |
| | SNPHL219 | Harlech dunes | M | M | | M | | | | | | Moderate |
| | SNPHL074 | Moel Hebog uplands | H | H | | M | | | | | | High |
| | SNPHL086 | Hafod Garegog, Hafod y Llyn | H | H | | U | | | | | | High |
| | SNPHL087 | Glaslyn estuary - reclaimed land | O | O | | H | | | | | | Outstanding |
| | SNPHL130 | Cwm Croesor and Manod lower slopes | O | O | | H | | | | | | Outstanding |
| | SNPHL131 | Parc and lower Croesor valley | O | O | | H | | | | | | Outstanding |
| | SNPHL132 | Brondanw estate villages | O | O | | H | | | | | | Outstanding |
| | SNPHL137 | Glaslyn slopes | H | H | | H | | | | | | High |
| | SNPHL141 | Cefn Hir | M | H | | M | | | | | | Moderate |
| | SNPHL193 | Ardudwy coastal strip | H | H | | H | | | | | | Moderate |
| | GWNDDHL880 | Porthmadog harbour | O | O | | M | | | | | | Outstanding |
| Cultural Landscapes | SNPCL018 | Cnicht-Siabod | O | M | H | M | H | H | M | M | M | High |
| | GWNDDCL021 | Ffestiniog/Welsh Highland Railway | M | O | O | O | O | O | M | H | O | Outstanding |
| | GWNDDCL034 | Eifionydd (Eastern) | M | O | O | O | O | O | H | O | O | Outstanding |
| | GWNDDCL053 | Morfa Bychan/Blackrock sands/Garregwen | H | M | H | H | M | M | M | M | M | High |
| | GWNDDCL054 | Portmadoc/Tremadoc/Penrhyndeudraeth | O | O | O | O | O | O | H | O | O | Outstanding |
| | GWNDDCL055 | Portmeirion | O | O | O | O | O | O | M | O | H | Outstanding |
| | GWNDDCL008 | Principal roads | H | H | M | M | H | H | H | H | H | High |
| | SNPCL010 | Mynydd Mawr-Nantlle Ridge-Moel Hebog | H | M | H | M | H | H | H | M | M | High |
| | SNPCL053 | Coastal railway, Conwy valley railway | H | H | H | H | H | O | H | H | O | High |
| | SNPCL025 | Croesor-Cwm Croesor | H | H | O | H | H | O | M | O | M | Outstanding |
| | SNPCL027 | Vale of Ffestiniog-Trawsfynydd-Cwm pryso | O | O | O | O | O | O | H | H | O | Outstanding |
| | SNPCL028 | Eifionydd (Eastern) | M | O | O | O | O | O | H | O | O | Outstanding |
| | SNPCL029 | Ffestiniog-Welsh Highland Railway | M | O | O | O | O | O | M | H | O | Outstanding |
| | SNPCL032 | Rhinogydd | H | H | H | H | H | H | H | H | M | High |
| | SNPCL046 | Aberglaslyn | O | M | O | M | H | H | H | H | O | Outstanding |
| | GWNDDCL056 | Railway-Pwllheli to Dyfi Junction | H | H | H | H | H | O | H | H | O | High |

# 04: Penllyn

*Map Lleoliad*



*Ffotograffau cynrychioliadol*





Lleolir yr Ardal Tirwedd Arbennig yma ar fin mwyaf dwyreiniol Gwynedd.  Saif yr ardal yn gyfagos i Barc Cenedlaethol Eryri sydd i'r gorllewin a'r de, gan ymestyn i fyny at derfyn yr Awdurdod gyda Sir Ddinbych i'r dwyrain a Chonwy i'r gogledd. Mae hefyd yn ffinio gydag Ardal Tirwedd Arbennig 5 Conwy: Cerrigydrudion a choridor yr A5.

# Datganiad Gwerth ac Arwyddocâd

| **Disgrifiad o'r tirlun** |
|---|
| Mae'r tirlun yma yn ucheldir golygfaol ar y cyrion sy'n ffinio ag ochr ddwyreiniol Parc Cenedlaethol Eryri. Mae’n cynnwys tirlun amaethyddol tonnog a choetir sy'n dringo i hyd at 500 metr sy'n cynnwys nifer o fynyddoedd trawiadol fel Moel y Gydros, Moel Darren, Foel Fach a Moel Emoel. Defnyddir y tir yn bennaf ar gyfer tir bugeiliol amaethyddol a thir pori garw, gyda nifer o blanhigfeydd a choed aeddfed, gwlypdir gwerthfawr a chynefinoedd rhostir sy'n ychwanegu amrywiaeth a gwead i'r tirlun. Mae gorlifdir afon Dyfrdwy yn mynd drwy ran ddeheuol y tirlun gyda'r pen gorllewinol wedi ei ddynodi fel rhan o ardal ehangach Tirlun o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig y Bala a Glannau Llyn Tegid sydd a'i hyd i gyd yn SSSI ac Ardal Cadwraeth Arbennig. Dynodwyd yr olaf oherwydd ei swyddogaeth bwysig fel llwybr naturiol a hanesyddol gyda safleoedd archeolegol pwysig sy'n deillio o'r cyfnod Rhufeinig a chanoloesol. Mae graddfa lai'r tirlun o'i gymharu gyda'r Parc Cenedlaethol cyfagos, yn golygu fod ei gymeriad yn llonydd, agos a mwyn. Mae'r tirlun yn ffurfio gosodiad golygfaol, cefn gwlad i Eryri a throsglwyddiad graddol i'r mynyddoedd tu hwnt (yn cynnwys mynyddoedd y Berwyn i'r de). |

| **Sut mae'r Ardal Tirwedd Arbennig (ATA) yn cwrdd â meini prawf y dynodiad** | | |
|---|---|---|
| **Ymaferol (rhaid cwrdd â'r ddau faen prawf)** | ***Angen*** | Mae'r ATA yn darparu swyddogaeth bwysig fel gosodiad i Eryri ac fel 'adwy' wledig i'r Parc Cenedlaethol o'r dwyrain. Oherwydd ei leoliad y tu allan i'r dirwedd warchodedig a'i agosrwydd at anheddiad y Bala, mae'r ATA o dan bwysau o ddatblygu cynyddol ar hyd gorlifdir dyffryn yr afon ac ehangiad datblygu llinellol ar hyd yr A494.<br><br>Mae natur uwch y tirlun yn golygu bod galw am ddatblygiadau ynni gwynt ac mae eu heffaith cronnus posib yn fater allweddol, gyda Fferm Wynt Braich Ddu yn weithredol ac wedi ei lleoli yn nwyrain yr ATA. |
| | ***Cyfanrwydd / cydlyniad cymeriad y tirlun*** | Mae'r ATA yn cynnwys ardal sydd â chymeriad cydlynol sy'n dilyn terfynau LCA 12: Llandderfel (Canllaw Tirlun Gwynedd, 2005 - diweddarwyd 2012). Fe saif rhwng Parc Cenedlaethol Eryri a therfyn dwyreiniol yr Awdurdod. |
| **Tirwedd (rhaid cwrdd ag o leiaf un maen prawf)** | ***Hynodrwydd lleol a naws am le*** | Mae hwn yn dirlun gwledig, agos gydag ymdeimlad o lonyddwch a nodweddion hanesyddol a naturiol gwerthfawr. Ceir yma ymdeimlad cryf o hanes ar hyd llwybr afon Dyfrdwy - llwybr naturiol a hanesyddol strategol sy'n cynnwys safleoedd pwysig o gyfnod y Rhufeiniaid a'r canoloesoedd (e.e. Caer a gwersylloedd Rhufeinig Llanfor). O amgylch y Sarnau mae tirlun hanesyddol o gaeau anrheolaidd a choedwigoedd sydd prin wedi newid ers y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gyda chlytiau o ucheldir a choedwigaeth mewn mannau eraill. Mae'r ATA yn swatio ar odreon Eryri gyda golygfeydd o'r mynyddoedd cyfagos sy'n ychwanegu at hynodrwydd lleol y tirlun yma. |
| Historic Landscapes | 0 | Lledwigan | H | H | | H | | | | | | High |
| | 9 | Inland southern Anglesey | O | O | | H | | | | | | Outstanding |
| | 3 | Aberffraw area | O | H | | O | | | | | | Outstanding |
| | 2 | Bodorgan Estate | O | O | | M | | | | | | High |
| | 8 | Malltraeth Marsh | O | H | | H | | | | | | Outstanding |
| | 6 | Fieldscape, central eastern Mon | O | O | | H | | | | | | Outstanding |
| | 5 | Llangefni | H | M | | H | | | | | | High |
| | 6 | A5 corridor and associated villages | O | O | | H | | | | | | Outstanding |
| | 5 | Fieldscape south of Malltraeth | M | H | | M | | | | | | Moderate |
| | 3 | Fieldscape north of Newborough | O | H | | H | | | | | | High |
| Cultural Landscapes | 4 | South west coast | U | H | O | U | H | O | U | H | H | Outstanding |
| | 3 | Central Anglesey | U | H | H | U | H | H | H | H | H | High |
| | 1 | Sustrans Cycle Route | O | M | H | L | M | L | L | M | O | High |
| | 5 | Llangefni - Oriel Ynys Mon | M | M | L | M | M | M | H | M | H | High |
| | 3 | Newborough forest, Llanddwyn | U | H | H | U | O | H | U | O | M | Outstanding |
| | 2 | Transport corridor area | H | M | H | U | H | H | H | M | M | High |
| | 9 | Railway - Chester to Holyhead | H | O | O | O | O | M | H | H | O | Outstanding |
| | 8 | A55 road | H | M | L | L | M | L | L | H | M | High |
| | 7 | A5 Road Villages | H | M | M | U | H | H | M | M | M | High |
| | 6 | A5 Road | O | O | O | O | O | O | L | M | M | Outstanding |

# 12: Tir Stad Parciau

*Map Lleoliad*




*Ffotograff cynrychioladol (© John Briggs)*



Lleolir Ardal Tirwedd Arbennig Tir Stad Parciau yn nwyrain Ynys Môn, mwy i ganol y tir nac anheddiad arfordirol Moelfre a ffin yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

# Datganiad Gwerth ac Arwyddocâd

| **Disgrifiad o'r dirwedd** | | |
|---|---|---|
| Mae ATA Tir Stad Parciau yn dirwedd sydd â naws pendant am dir parc/stad wedi'i rheoli, gydag ystod o goetir cymysg ac addurnol, tir ffermio bugeiliol a lleiniau o eithin, sy'n darparu adeiledd amrywiol. Mae'r dirwedd yn cynnwys rhostir a gwlyptir gweddilliol gwerthfawr (glaswelltir corsiog a ffen); mae'n darparu cysylltiadau ecolegol pwysig â Gwarchodfa Natur Cenedlaethol Cors Erddreiniog sydd gerllaw. Mae esblygiad hanesyddol a diwylliannol cryf y dirwedd yn amlwg mewn sawl safle a nodwedd archeolegol gwerthfawr. Ceir tystiolaeth o'r cyfnod cynhanesyddol ac o feddiannaeth Rufeinig, megis bryngaer Parciau (sydd weithiau'n cael ei alw'n Bryn Ddol). Tu mewn iddi, fe ddarganfuwyd cylchoedd cytiau cerrig. Mae capeli o darddiad canoloesol, gweddillion anheddiad canoloesol ac adeiladau/nodweddion yn ymwneud â Thir Stad Parciau (gan gynnwys tŷ domestig mawr a thir parc cysylltiedig, colomendai, capeli ac adeiladau stad) yn cryfhau cymeriad hanesyddol yr ATA ymhellach. Lleolir yr ATA heddychlon a gwledig hon yn union gyferbyn ag AHNE Ynys Môn. | | |
| **Sut mae'r Ardal Tirwedd Arbennig (ATA) yn cwrdd â meini prawf y dynodiad** | | |
| **Ymarferol** (rhaid cwrdd â'r ddau faen prawf) | ***Angen*** | Mae'r ATA yn ffinio AHNE Ynys Môn, ac fe'i lleolir yn agos at ran boblogaidd o arfordir gan gynnwys cyrchfan Moelfre. Felly, datblygiad yn ymwneud â thwristiaeth yw'r pwysau mwyaf, gyda pharciau carafannau amlwg eisoes wedi'u lleoli ar hyd ymylon dwyreiniol yr ATA. |
| | ***Cyfanrwydd/cydlyniad cymeriad*** | Mae'r ATA hon yn cynnwys tir stad yn ymwneud â Pharciau, ar drywydd ardal agwedd Tirweddau Hanesyddol LANDMAP ('Eithriadol'). I'r gogledd, ceir yr A5025 ac AHNE Ynys Môn, ac mae'n ymestyn i'r gorllewin i ymylu â ffin yr AHNE. |
| **Tirwedd** (rhaid cwrdd ag un maen prawf o leiaf) | ***Hynodrwydd lleol a naws am le*** | Canlyniad cymeriad hanesyddol cryf a stad wedi'i rheoli'r dirwedd hon yw naws gryf am le sy'n rhoi'r ATA ar y brig o'i chymharu â'i chyffiniau. |
| | ***Ansawdd y dirwedd*** | Dyma dirwedd gyfan gydag arweddion nodweddiadol sy'n cael eu rheoli'n briodol er mwyn diogelu a mwyhau ei naws am le hanesyddol a chryf. Mae'n cynnwys safleoedd a nodweddion sydd o bwysigrwydd archeolegol cenedlaethol (gan gynnwys y grwpiau cytiau cynhanesyddol Rhestredig yn Caerhoslligwy, y fryngaer Rufeinig ym Mharciau a cholomendy ôl-ganoloesol. Mae rhostir, llaid a ffen sydd wedi'u dynodi'n ADdGA yn darparu tir naturiol sy'n cyferbynnu â'r ATA - gan greu cysylltiadau ecolegol a gweledol gwerthfawr â Gwarchodfa Naturiol Cenedlaethol Cors Erddreiniog sydd gerllaw. |
| | ***Ansawdd yr olygfa*** | Dyma dirwedd sy'n wledig yn bennaf, gydag ystod o nodweddion naturiol a diwylliannol yn darparu diddordeb gweledol ac amrywiaeth i'r dirwedd. Dim ond agosatrwydd y briffordd arfordirol (yr A5025) a lleoliad y safleoedd carafán o fewn y dirwedd yw'r difriwyr modern. Mae ei lleoliad gyferbyn ag AHNE Ynys Mon yn mwyhau nodweddion golygfaol a heddychlon yr ATA ymhellach. O ran golygfeydd, gweler mynyddoedd Eryri yn creu gorwel pell i'r de o'r dirwedd. |

| | | |
|---|---|---|
| **Gosodiad tirweddau gwarchodedig (ble bo'n berthnasol)** | ***Gosodiad tirweddau o bwysigrwydd cenedlaethol*** | Mae'r ATA yn darparu rhan o osodiad AHNE Ynys Môn sydd gyferbyn. Dylai'r cynigion dalu sylw i nodweddion arbennig y dirwedd warchodedig a rhoi ystyriaeth ddyledus i Gynllun Rheoli'r AHNE. |

**Nodweddion Arbennig yr ATA**

Dylai gwaith cynllunio a chynigion rheoli yn yr ATA ac yng ngosodiad ei thirwedd roi ystyriaeth i'r nodweddion arbennig isod:

- Naws stad/tir parc cryf y dirwedd gyda nodweddion hanesyddol a safleoedd archeolegol gwerthfawr (Henebion Rhestredig yn cynnwys y grwpiau o gytiau cynhanesyddol yng Nghaerhoslligwy, bryngaer Rufeinig y Parciau a cholomendy ym Mharciau);
- Cynefinoedd lled-naturiol sydd o bwysigrwydd cenedlaethol yn ADdGA Tyddyn y Waen (dol cors galchog, trylifiadau, helygen) ac ADdGA Penrhos Lligwy (rhostir iseldir, llaid a dol cors galchog). Mae'r rhain yn darparu cysylltiadau gwerthfawr â Gwarchodfa Natur Cenedlaethol Cors Erddreiniog/Safle Ramsar/ACA - dyma ffen fwyaf Ynys Môn;
- Swyddogaeth y dirwedd fel gosodiad AHNE Ynys Môn;
- Golygfeydd arwyddocaol o ucheldir i'r AHNE sydd gyferbyn ac i Eryri ar y gorwel deheuol pell;
- Cymeriad heddychlon a gwledig iawn y dirwedd, gyda diffyg datblygu modern cyffredinol.

**Cyfeiriad at yr Asesiad Cymeriad Tirwedd lleol a LANDMAP**

*Cysylltiad gyda'r Asesiad Cymeriad Tirwedd*

Mae'r ATA yn gorwedd o fewn ACT 8: Cefnwlad Bae Dulas yn bennaf ac 17: Gorllewin Canol Môn. Mae rhan o'r ymylon dwyreiniol yn gorwedd o fewn ACT 9: Y Traeth Coch (Strategaeth Tirwedd Ynys Môn, diweddarwyd 2011).

## Matrics o elfennau ardaloedd agwedd LANDMAP

| LANDMAP Aspect Area Matrix - SLA : Parciau Estatelands | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Aspect area** | **UID** | **Area name** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **Overall Evaluation** |
| Geological Landscape | 5 | Tyddyn | L | L | L | L | | | | | | Moderate |
| | 0 | Benllech | H | H | H | M | | | | | | High |
| | 9 | Cors Erddeiniog | L | L | L | L | | | | | | Moderate |
| | 0 | Llanerchymedd | H | H | H | H | | | | | | High |
| Landscape Habitats | 2 | Woodland N. of Brynteg | U | M | U | U | M | H | H | H | | High |
| | 5 | Farmland S.W. of Benllech | M | M | M | U | M | M | M | M | | Moderate |
| | 1 | Farmland W. of Moelfre | L | L | M | U | U | M | L | H | | Moderate |
| | 7 | Anglesey | L | M | M | U | M | U | L | M | | Moderate |
| | 0 | Cors Erddreiniog | O | H | L | U | H | M | O | O | | Outstanding |
| Visual & Sensory | 4 | Benllech hinterland | H | M | M | M | | | | | | Moderate |
| | 2 | Central smooth belt | M | H | L | L | | | | | | Moderate |
| Historic Landscapes | 5 | Brynrefail | M | H | | U | | | | | | Moderate |
| | 3 | Fieldscape, eastern Mon | H | H | | U | | | | | | High |
| | 2 | Parciau/Lligwy | O | O | | H | | | | | | Outstanding |
| | 1 | Cors Erddreiniog | U | L | | H | | | | | | Moderate |
| | 9 | Capel Coch | H | H | | U | | | | | | High |
| Cultural Landscapes | 3 | Central Anglesey | U | H | H | U | H | H | H | H | H | High |
| | 6 | North east coast | H | H | O | U | O | H | H | H | H | Outstanding |

# 13: Mynydd Parys

*Map Lleoliad*



*Ffotograffau cynrychioliadol*





Mae Ardal Tirwedd Arbennig Mynydd Parys yn cynnwys Mynydd Parys a’r tirwedd drosiannol oleddol o'i hamgylch i'r gogledd. Lleolir yr ATA yng ngogledd-ddwyrain Ynys Môn, yn codi o aneddiad Amlwch ac AHNE Ynys Môn.

# Datganiad Gwerth ac Arwyddocâd

| Disgrifiad o'r dirwedd |
|---|
| Mae de'r ATA wedi'i ffurfio gan graidd Mynydd Parys, crib amlwg ac unigryw sy'n codi i oddeutu 150 medr AOD ac yn ffurfio nodwedd weledol ddominyddol sydd wedi'i osod o fewn tirwedd ffermio donnog sydd yn raddol goleddu.  Roedd yn glawdd gopr ers talwm (ar y cyfnod yr un mwyaf ym Mhrydain), ac ar ei hôl mae tirwedd anarferol o gerrig brig lliwgar mewn arlliwiau trawiadol o goch, oren a brown, o ganlyniad i olion mwynau wedi'u hindreulio. Mae'r dirwedd yn adlewyrchu ei hetifeddiaeth ddiwydiannol arwyddocaol, ac mae nodweddion creiriau yn cynnwys hetiau pwll diffaith, llynnoedd *settling*, tipiau ac wynebau'r chwarel (wedi'i dynodi yn Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol).  Mae rhai rhannau o'r ardal hon wedi'i dynodi yn ADdGA, gyda thomenni prif gwastraff sy'n cynnwys mwynau prin, gwythiennau mwynau a datguddiadau cerrig sy'n denu planhigion a chennau anarferol. Mae rhostiroedd a thiroedd gwlyb yn darparu llochesi pwysig i fywyd gwyllt ac yn cyfrannu at adeiledd a lliwiau amrywiol y dirwedd.  Mae'r llethrau ysgafn o amgylch Mynydd Parys yn cynnwys tir ffermio tonnog agored sy'n disgyn tuag at yr arfordir gogleddol sydd wedi'i ddynodi'n AHNE.  Mae gan yr ATA ryngwelededd cryf gyda'r môr a'r arfordir. |

| Sut mae'r Ardal Tirwedd Arbennig (ATA) yn cwrdd â meini prawf y dynodiad | | |
|---|---|---|
| **Ymarferol** (rhaid cwrdd â'r ddau faen prawf) | ***Angen*** | Mae'r ATA yn ffurfio tirnod amlwg yng ngogledd Ynys Môn, gyda chysylltiadau swyddogaethol a gweledol â'r AHNE sydd gyferbyn.  Mae ei lleoliad ar ymylon Amlwch ac yn agos at ran boblogaidd o'r arfordir o ran twristiaeth yn arwain at bwysau datblygu ar hyd ymylon gogleddol yr ATA.  Yn ogystal, mae natur agored ac uchel y dirwedd yn golygu fod galw am ddatblygiad ynni gwynt yn fater allweddol, sy'n bygwth gosodiad y dirwedd hanesyddol.  Mae Fferm Gwynt gweithredol Trysglwyn eisoes wedi'i leoli yn union i'r de-ddwyrain o'r ATA. |
| | ***Cyfanrwydd/cydlyniad cymeriad*** | Mae'r ATA yn cynnwys crib unigryw ac amlwg Mynydd Parys, a'r dirwedd drosiannol donnog sy'n amgylchynu'r nodwedd hon i'r gogledd ac i'r gorllewin. Er bod tirwedd y tir ffermio sy'n goleddu o'i hamgylch a Mynydd Parys yn wahanol o ran cymeriad, mae ganddynt gysylltiad gweledol cryf gyda'r môr a'r arfordir, ac maent yn ffurfio gosodiad gwerthfawr i AHNE Ynys Môn (a'i morlun). Diffinnir ffiniau'r de, y dwyrain a'r gogledd gan gyfuniad o'r unedau LANDMAP Hanesyddol a Diwylliannol. |
| **Tirwedd** (rhaid cwrdd ag un maen prawf o leiaf) | ***Hynodrwydd lleol a naws am le*** | Mae rhan fawr o'r ATA o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Cymru Amlwch a Mynydd Parys, gan adlewyrchu ei hetifeddiaeth ddiwydiannol cyfoethog (mae hefyd wedi'i gwerthuso yn 'Uchel' o ran y Tirweddau Hanesyddol ac yn 'Eithriadiol' neu'n 'Uchel' o ran agweddau Tirweddau Diwydiannol LANDMAP). Mae tipiau gwastraff a phwll copr brig yr 18-19eg ganrif, gydag ystod eang o strwythurau a nodweddion cysylltiedig sy'n prosesu, yn arwain at dirwedd sy'n nodedig yn weledol ('Eithriadol' yn yr agwedd Gweledol a Synhwyrol) gyda cherrig brig lliwgar mewn arlliwiau trawiadol o goch, oren, melyn a |

| | | |
|---|---|---|
| | | brown. Mae daeareg unigryw a gwaith diwydiannol y mynydd wedi arwain at amodau amgylcheddol arbennig, gyda chennau sy'n brin yn genedlaethol, rhostir a gwlyptiroedd sy'n pwysleisio ei naws am le nodedig ymhellach. |
| | ***Ansawdd y dirwedd*** | Er mai tirwedd gwneud yw hon yn ei hanfod, mae ei nodweddion diwylliannol, hanesyddol ac amgylcheddol unigryw yn cyfuno i gynhyrchu tirwedd nodedig o ansawdd uchel. Mae rhai ymyraethau modern megis yr A5025, golygfeydd i'r ffermydd gwynt cyfagos a'i hagosatrwydd at anheddiad Amlwch yn effeithio'r nodweddion arbennig hyn. |
| | ***Ansawdd yr olygfa*** | Mae'r dirwedd yn ffurfio tirnod unigryw sy'n weledol amlwg ar hyd arfordir gogleddol Ynys Môn, gyda morlun a thirwedd yr AHNE yn creu cefnlen deniadol iddi. Ceir golygfeydd maith o'i ffurf uchel, allan i'r môr ac ar draws yr ynys. Mae gwahanolrwydd yr ardal a'i nodweddion golygfaol sylweddol wedi arwain iddi fod yn le poblogaidd i deithwyr ac arlunwyr, ac yn fwy diweddar mae wedi darparu lleoliad cefndir i ffilmiau a rhaglenni ffuglen wyddonol. Gall golygfeydd i ddatblygiadau modern, gan gynnwys tyrbinau gwynt olynol, dynnu oddi wrth ei naws diamser cryf. |
| **Gosodiad tirweddau gwarchodedig** **(ble bo'n berthnasol)** | ***Gosodiad tirweddau o bwysigrwydd cenedlaethol*** | Mae'r ATA yn ffurfio rhan o osodiad pwysig i'r dirwedd a morlun AHNE Ynys Môn. Dylai'r cynigion dalu sylw i nodweddion arbennig y dirwedd warchodedig a rhoi ystyriaeth ddyledus i Gynllun Rheoli'r AHNE. |

**Nodweddion Arbennig yr ATA**

Dylai gwaith cynllunio a chynigion rheoli yn yr ATA ac yng ngosodiad ei thirwedd roi ystyriaeth i'r nodweddion arbennig isod:

- Ei swyddogaeth fel nodwedd unigryw, eiconig ac arbennig yng ngogledd ddwyrain Ynys Môn;
- Ei hamlygrwydd gweledol wrth edrych o'r arfordir sydd wedi'i ddynodi'n AHNE, gyda chysylltiadau gweledol cryf rhwng y môr, yr arfordir, yr AHNE a'r ATA;
- Ei golygfeydd eang a phell;
- Ei hetifeddiaeth hanesyddol a diwylliannol sydd o bwysigrwydd cenedlaethol (rhan o Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Amlwch a Mynydd Parys);
- Ei daeareg ac amodau pridd unigryw sy'n arwain at gennau, rhostiroedd a thiroedd gwlyb sydd o bwysigrwydd cenedlaethol (o fewn ADdGA Mynydd Parys);
- Ei chymeriad anghysbell gyda diffyg datblygiadau modern cyffredinol.

**Cyfeiriad at yr Asesiad Cymeriad Tirwedd lleol a LANDMAP**

*Cysylltiad gyda'r Asesiad Cymeriad Tirwedd*

Mae'r cyfan o'r ATA yn ACT 7: Mynydd Parys a'r Llethrau a rhan o ATA 6: Amlwch a'r Cyffiniau, yn Strategaeth Tirwedd Ynys Môn (diweddarwyd 2011).

## Matrics o elfennau ardaloedd agwedd LANDMAP

| LANDMAP Aspect Area Matrix - SLA : Parys Mountain & Slopes | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Aspect area** | **UID** | **Area name** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **Overall Evaluation** |
| Geological Landscapes | 0 | Llanerchymedd | H | H | H | H | | | | | | High |
| | 5 | Amlwch | L | L | L | L | | | | | | Moderate |
| | 4 | Llaneilian-Bodgadfa | L | L | M | M | | | | | | Moderate |
| | 3 | Mynydd Eilean | L | L | M | L | | | | | | Moderate |
| | 2 | Llanfechel | H | M | H | H | | | | | | High |
| | 1 | Parys Mountain | O | O | O | O | | | | | | Outstanding |
| Landscape Habitats | 0 | Mynydd Eilian | M | M | L | U | M | L | H | U | | Moderate |
| | 3 | Farmland in N.W. Anglesey | M | M | M | U | M | M | M | M | | Moderate |
| | 6 | Glan-y-Gors-Fawr | H | H | L | U | H | L | H | M | | Moderate |
| | 3 | Farmland E. of Llyn Alaw | L | L | M | U | U | U | L | M | | Low |
| | 8 | Pen-Y-Sarn | L | L | M | U | U | L | L | L | | Low |
| | 8 | Amlwch | L | L | M | U | U | L | L | M | | Low |
| | 1 | Farmland - N. Anglesey | L | L | M | U | L | U | L | M | | Low |
| | 0 | perimeter) | H | M | L | U | H | L | H | M | | High |
| | 9 | Mynydd Parys (Spoil) | U | O | L | U | U | L | H | O | | High |
| Visual & Sensory | 7 | Parys Mountain | O | L | O | O | | | | | | Outstanding |
| | 0 | Amlwch | L | L | H | M | | | | | | Low |
| | 1 | North coast hinterland | H | M | H | M | | | | | | High |
| | 0 | Drumlins with windfarms | L | L | H | H | | | | | | Moderate |
| | 3 | Mynydd Eilan | H | M | M | H | | | | | | Moderate |
| Historic Landscapes | 4 | Rhosybol | O | H | | O | | | | | | High |
| | 1 | Penrhyd Lastra | M | H | | M | | | | | | Moderate |
| | 0 | Amlwch/Parys Mountain | O | O | | O | | | | | | Outstanding |
| | 8 | Llaneilian / Pengorffwysfa | H | H | | H | | | | | | High |
| | 7 | Fieldscape, Rhos y Mynach | H | M | | M | | | | | | Moderate |
| | 6 | Fieldscape, central eastern Mon | O | O | | H | | | | | | Outstanding |
| Cultural Landscapes | 3 | Central Anglesey | U | H | H | U | H | H | H | H | H | High |
| | 6 | North east coast | H | H | O | U | O | H | H | H | H | Outstanding |
| | 8 | Porth Amlwch, Amlwch, Parys mines | H | O | O | H | O | O | M | H | M | Outstanding |

# 14: Mynydd Mechell

*Map Lleoliad*



*Ffotograffau cynrychioliadol*





Mae ATA Mynydd Mechell yn ffurfio tirwedd wahanol iawn, sy'n greigiog a gwyllt ac ar raddfa fechan. Mae'n ddirnadwy iawn o'i chymharu â'r dirwedd donnog lyfnach sy'n ei hamgylchynu. Lleolir yr ardal yng ngogledd canol Ynys Môn, i'r de o Lanfechell.

# Datganiad Gwerth ac Arwyddocâd

| Disgrifiad o'r dirwedd | | |
|---|---|---|
| Mae'r ATA yn dirwedd arbennig, sydd wedi'i chymeriadu gan dirffurf creigiog sy'n donnog iawn gyda chaeau pori anarferol wedi'u ffinio gan waliau cerrig, cerrig brig a lleiniau o eithin, gyda sawl pwll. Er mai dim ond i uchder o 92m AOD y mae'r dirwedd yn codi, mae ganddi nodweddion sydd gyffelyb ag ucheldir 'gwyllt', sy'n hawdd ei hadnabod o'i gymharu â'r dirwedd donnog lyfn sydd wedi'i ffurfio gan ddrymlin sy'n amgylchynu'r ATA. Mae'r ATA yn cynnwys gweundir creigiog agored a brithwaith amrywiol o gynefinoedd lled-naturiol o fewn tir ffermio bugeiliol. Mae ganddi rinwedd gwledig cryf nad yw wedi'i difetha ar y cyfan gan bresenoldeb datblygiadau modern. Ceir lonydd bychan sy'n troelli ar hyd y topograffi tonnog ac o dro i dro ceir tai, ffermydd a phentrefannau wedi'u gwasgaru ar hyd y lonydd. Y prif bentref sy'n gwasanaethu'r ardal yw Carreglefn (wedi'i leoli i'r de ddwyrain). Mae gan yr ardal arwyddocâd diwylliannol a hanesyddol gryf, gan gynnwys tystiolaeth o anheddiad o gyfnodau cynhanesyddol. | | |
| **Sut mae'r Ardal Tirwedd Arbennig (ATA) yn cwrdd â meini prawf y dynodiad** | | |
| **Ymarferol** (rhaid cwrdd â'r ddau faen prawf) | ***Angen*** | Mae gan gymeriad cryf y dirwedd hon, nad yw wedi'i difetha ar y cyfan, arwyddocâd diwylliannol, hanesyddol a gweledol uchel. Mae'r dirwedd i gyfeiriad y de o'r ATA eisoes yn cynnwys cyfres o ddatblygiadau tyrbin gwynt. Mae hyn yn newid mawr o fewn y dirwedd ehangach. |
| | ***Cyfanrwydd/cydlyniad cymeriad*** | Mae'r ATA yn cynnwys tirwedd arbennig iawn sydd â thir bryniog, creigiog a thwmpathog. Mae ganddi gymeriad deniadol ac anarferol wyllt sy'n sefyll allan o'i chymharu â llwyfandir unffurf gweddill yr ynys o'i hamgylch. Mae ei ffin yn dilyn ffin yr Elfen Weledol a Synhwyrol LANDMAP (gwerthusiad cyffredinol: Uchel). |
| **Tirwedd** (rhaid cwrdd ag un maen prawf o leiaf) | ***Hynodrwydd lleol a naws am le*** | Mae'r ATA yn cynnwys cymeriad ucheldir creigiog anarferol, er gwaethaf ei safle cymharol isel. Mae gan y dirwedd arwyddocâd diwylliannol a hanesyddol, ac mae'r holl ATA yn sgorio 'Uchel' yn Elfen Tirweddau Diwylliannol LANDMAP, ac yn 'Uchel' gan amlaf (gydag ychydig o 'Eithriadol') yn yr Elfen Tirweddau Hanesyddol. Mae'n sefyll allan o'i chymharu â'i chyffiniau fel tirwedd unigryw ac amrywiol sydd â naws am le cryf. |
| | ***Ansawdd y dirwedd*** | Dyma ATA sydd â thirwedd gyfan gyda chymeriad cytbwys a chydlynol. Mae'n cynnwys brithwaith o gerrig brig moel, eithin a rhostir, caeau pori ar raddfa fechan bob hyn a hyn a chyfuniad o diroedd gwlyb lled-naturiol, rhostiroedd, prysg a phyllau bychan wedi'u gwasgaru. Mae poblogaeth wasgaredig yn dilyn rhwydwaith gymhleth o lonydd a llwybrau troed gwledig. Mae waliau cerrig sych ac adeiladau cerrig yn darparu unoliaeth gref â'r dirwedd greigiog. Mae effeithiau o du allan yr ATA (datblygiadau ffermydd gwynt yn benodol) yn bygwth cymeriad naturiol a gwledig iawn y dirwedd. |
| | ***Ansawdd yr olygfa*** | Mae gan yr ATA gymeriad golygfaol sydd heb ei ddifetha ar y cyfan, sy'n cael ei ddadansoddi'n 'Uchel' drwy gydol Elfen Weledol a Synhwyrol LANDMAP. Ar y cyfan, mae golygfeydd gwledig o du mewn i'r ATA yn gyfyngedig ac yn gaeedig oherwydd y tir creigiog a thwmpathog lleol. Yn achlysurol, mae tyrbinau gwynt o du allan i'r ATA |

| | | |
|---|---|---|
| | | yn fodd modern o dynnu sylw oddi wrth y gorwel. |
| **Gosodiad tirweddau gwarchodedig (ble bo'n berthnasol)** | ***Gosodiad tirweddau o bwysigrwydd cenedlaethol*** | Amh. |

## Nodweddion Arbennig yr ATA

Dylai gwaith cynllunio a chynigion rheoli yn yr ATA ac yng ngosodiad ei thirwedd roi ystyriaeth i'r nodweddion arbennig isod:

- Y dirwedd arbennig a chreigiog ar raddfa fechan, gydag ucheldir gwyllt a chymeriad gwledig dros ben, sy'n cyferbynnu a'r dirwedd donnog lyfn o'i hamgylch a ffurfiwyd gan ddrymlin.
- Ei rhwydwaith cywrain o gaeau, llwybrau, traciau, lonydd troellog bychan a phatrwm poblogaeth gwasgaredig.
- Presenoldeb amryw o gynefinoedd a llystyfiant, gyda chyfuniad o gynefinoedd lled-naturiol o fewn glaswelltir wedi'i wella, megis ardaloedd corslyd bychan a phyllau, clegyrau, rhostir ac eithin (gan gynnwys ADdGA Salbri a Llyn Hafodol a Chors Clegyrog).
- Undod y dirwedd, gyda nodweddion gwerin megis waliau cerrig sych ac adeiladau cerrig.
- Arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol y dirwedd, gyda phatrymau caeau cryf, a thystiolaeth o ddefnydd hanesyddol y tir ac anheddiad o gyfnodau cynhanesyddol.

## Cyfeiriad at yr Asesiad Cymeriad Tirwedd lleol a LANDMAP

*Cysylltiad gyda'r Asesiad Cymeriad Tirwedd*

Mae'r rhan fwyaf o'r ATA oddi fewn i ACT 5: Gogledd Orllewin Môn, gyda rhan fechan yn y dwyrain oddi fewn i ACT 6: Amlwch a'r Cyffiniau, fel y'u hadnabuwyd yn Strategaeth Tirwedd Ynys Môn (diweddarwyd 2011).

## Matrics o elfennau ardaloedd agwedd LANDMAP

| Aspect area | UID | Area name | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | Overall Evaluation |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gelogical Landscapes | 3 | Llyn Llygeirian | M | L | M | L | | | | | | Moderate |
| | 9 | Mynydd Mechel | M | L | M | L | | | | | | Moderate |
| | 2 | Llanfechel | H | M | H | H | | | | | | High |
| Landscape Habitats | 6 | Llyn Hafodol | H | H | U | U | H | L | H | M | | High |
| | 5 | Llyn Llygeirion | H | H | U | U | H | L | H | M | | High |
| | 6 | Farmland - N.W. Anglesey | L | L | M | U | L | U | L | M | | Low |
| | 1 | Farmland - N. Anglesey | L | L | M | U | L | U | L | M | | Low |
| | 9 | Mynydd Mechel | M | H | M | U | M | M | H | H | | High |
| | 6 | Farmland - West Anglesey | L | L | M | U | M | U | L | M | | Moderate |
| Visual & Sensory | 0 | Drumlins with windfarms | L | L | H | H | | | | | | Moderate |
| | 9 | Mynydd Mechell | H | H | H | H | | | | | | High |
| | 8 | North-west drumlins | M | H | M | L | | | | | | Moderate |
| Historic Landscapes | 8 | Mynydd Mechell | H | H | | M | | | | | | High |
| | 7 | Fieldscape, north-west Mon | M | H | | M | | | | | | High |
| | 2 | Fieldscape, Rhosbeirio | H | H | | U | | | | | | High |
| | 6 | Mon | O | O | | H | | | | | | Outstanding |
| Cultural Landscapes | 3 | Central Anglesey | U | H | H | U | H | H | H | H | H | High |

# 15: Llethrau Coediog Biwmares a Bro Llangoed

*Map Lleoliad*



*Ffotograffau cynrychioladol (© John Briggs)*





Lleolir Ardal Tirwedd Arbennig Llethrau Coediog Biwmares a Bro Llangoed yng nghornel de-ddwyrain Ynys Môn (Penmon), tua’r tir o anheddiad arfordirol Biwmares.  Mae wedi’i lleoli rhwng yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), sy'n amgylchynu'r ATA ar dair ochr.

# Datganiad Gwerth ac Arwyddocâd

| **Disgrifiad o'r dirwedd** | | |
|---|---|---|
| Mae'r ATA hon yn cynnwys brithwaith cryf ac amrywiol o dir ffermio tonnog wedi'i amgáu gan wrychoedd yn llawn rhywogaethau, llu o goetir ar gribau a lleiniau o rostir a phrysg. Mae'n cynnwys rhostir carreg galch a glaswelltir sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol ar grib amlwg yn ADdGA Mariandyrys, yn ogystal â rhostir agored, glaswelltir asid a choetir ar Dir Comin Llanddona. Mae gan y dirwedd wledig iawn hon boblogaeth wasgaredig, a'r unig brif anheddiad yw Llangoed ar ymyl dwyreiniol yr ATA. Mewn mannau eraill, caiff gwasgariad o ffermydd a phentrefannau bychan eu cysylltu gan rwydwaith o ffyrdd gwledig troellog, traciau a llwybrau troed. Mae cymeriad hanesyddol cryf iddi, ac mae'r ATA yn ei chyfanrwydd oddi mewn i Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Penmon. Lleolir y dirwedd heddychlon hon, sy'n wledig dros ben, rhwng AHNE Ynys Môn, sy'n ei hamgylchynu'n gyfan gwbl heblaw am ar ei hochr dwyreiniol. Felly, mae rhyngwelededd â'r AHNE yn un o brif nodweddion y dirwedd, ynghyd â'r golygfeydd maith ar draws y Fenai i fynyddoedd Eryri, sy'n ffurfio cefnlen deheuol deniadol i'r ardal. | | |
| **Sut mae'r Ardal Tirwedd Arbennig (ATA) yn cwrdd â meini prawf y dynodiad** | | |
| **Ymarferol <u>(rhaid cwrdd â'r ddau faen prawf)</u>** | ***Angen*** | Amgylchynir yr ATA gan AHNE Ynys Môn, ac mae wedi'i lleoli'n agos at ran boblogaidd o'r arfordir gan gynnwys Y Traeth Coch (i'r gogledd) a chyrchfan Biwmares i'r de. Felly, datblygiad yn ymwneud â thwristiaeth yw'r pwysau mwyaf ar y dirwedd, gan gynnwys y galw i leoli safleoedd carafanau, siales a chabanau. Mae pwysau datblygu eraill yn cynnwys cynigion am ddatblygiadau ynni gwynt. Mewn tirwedd gydag ond ychydig o fynediad at y ffordd, byddai unrhyw ddatblygiad newydd yn cael effaith sylweddol ar nodweddion yr ATA sydd ar hyn o bryd heb ei difetha ar y cyfan. |
| | ***Cyfanrwydd/cydlyniad cymeriad*** | Mae'r ATA yn ei chyfanrwydd yn cael ei ffinio gan yr AHNE ar bob ochr heblaw am yr ochr ddwyreiniol, sy'n dilyn elfen Tirweddau Diwylliannol LANDMAP ('Eithriadol') a ffin Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Penmon. I'r gorllewin, mae'r dirwedd yn ymwneud llawer mwy â ffermio a llai o amrywiaeth, sydd felly'n gwneud i'r ATA sefyll allan fel ardal sydd â chymeriad cydlynol. |
| **Tirwedd <u>(rhaid cwrdd ag un maen prawf o leiaf)</u>** | ***Hynodrwydd lleol a naws am le*** | Mae'r brithwaith o gaeau afreolaidd sy'n donnog yn bennaf, bandiau o goetir a lleiniau o rostir - ynghyd â'i boblogaeth wasgaredig - yn arwain at dirwedd sy'n wledig iawn gyda naws diamser. Mae'r holl ardal oddi mewn i Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Penmon ehangach, sy'n werthfawr yn benodol am ei thystiolaeth sy'n arddangos parhad o ddefnydd y tir a gweithgarwch o ddiwedd y cyfnod cynhanesyddol i'r gorffennol diweddar. Mae hyn yn cynnwys cylch cytiau amgaeedig ger Mariandyrys: Heneb Rhestredig. Mae'r ATA yn ehangu cymeriad yr AHNE tua'r tir o'r arfordir, gyda chefnlen sy'n cynnwys y dirwedd warchodedig hon, ac Eryri, yn cyfuno i greu naws am le gwahaniaethol. |

| | | |
|---|---|---|
| | ***Ansawdd y dirwedd*** | Dyma dirwedd sydd wedi'i ffurfio gan ganrifoedd o weithgarwch amaethyddol a rheolaeth tir, gyda phatrwm caeau hanesyddol afreolaidd a chynhelir gan wrychoedd trwchus a choed gwrychoedd. Mae'r patrwm hwn yn wannach mewn rhai mannau oherwydd diddymiad y gwrychoedd yn y gorffennol a rhoi ffensys yno yn eu lle. Ceir mwy o amrywiaeth oherwydd bandiau a blociau o goetir, gan gynnwys llu o goetir llydanddail prin ar sgarp sy'n ehangu tua'r gogledd o Fiwmares (y tu allan i'r ATA). Mae ADdGA Mariandyrys, i'r gogledd o'r ATA, yn frig cerrig calch amlwg sy'n arwain at frithwaith o rostir cerrig calch a glaswelltir calchaidd sydd o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae rhostir, glaswelltir asid, coetir a phrysg hefyd yn nodwedd o Dir Comin Llanddona, sy'n ehangu cymeriad naturiol yr AHNE gyferbyn yn y gogledd-orllewin. Yn gyffredinol, dyma dirwedd gyflawn sy'n cael ei rheoli'n dda. |
| | ***Ansawdd yr olygfa*** | Dyma dirwedd sy'n wledig yn bennaf, heb lawer o ymyraethau nac amhariad gweledol. Mae ei lleoliad gyferbyn ag AHNE Ynys Mon yn ehangu ei nodweddion golygfaol a heddychlon ymhellach. Mae mynyddoedd Eryri yn ffurfio gorwel gwahaniaethol o ran golygfeydd i'r de o'r dirwedd. |
| **Gosodiad tirweddau gwarchodedig (ble bo'n berthnasol)** | ***Gosodiad tirweddau o bwysigrwydd cenedlaethol*** | Mae'r ATA yn ffurfio rhan o osodiad pwysig sydd ger AHNE Ynys Môn gyferbyn. Dylai'r cynigion dalu sylw i nodweddion arbennig y dirwedd warchodedig a rhoi ystyriaeth ddyledus i Gynllun Rheoli'r AHNE. |

**Nodweddion Arbennig yr ATA**

Dylai gwaith cynllunio a chynigion rheoli yn yr ATA ac yng ngosodiad ei thirwedd roi ystyriaeth i'r nodweddion arbennig isod:

- Ei chymeriad heddychlon a'i phoblogaeth wasgaredig;
- Ei naws am le hanesyddol cryf, a'i lleoliad yn gyfangwbl oddi mewn i Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Penmon, gyda chylch cytiau sydd o bwysigrwydd cenedlaethol i'r gorllewin o Fariandyrys;
- Cynefinoedd lled-naturiol pwysig ADdGA Mariandyrys (rhostir cerrig calch a glaswelltir calchaidd a phlanhigion sy'n genedlaethol brin) a GNLl Tir Comin Llanddona (rhostir isel a glaswelltir asid);
- Swyddogaeth y dirwedd fel gosodiad ger AHNE Ynys Môn;
- Rhyngweledin cryf â'r AHNE gyferbyn ac Eryri ar y gorwel deheuol pell;
- Cymeriad heddychlon a gwledig iawn y dirwedd, gyda diffyg datblygu modern cyffredinol.

**Cyfeiriad at yr Asesiad Cymeriad Tirwedd lleol a LANDMAP**

*Cysylltiad gyda'r Asesiad Cymeriad Tirwedd*

Mae'r ATA bennaf yn gorwedd o fewn ACT 12: Dwyrain Canol Môn ac 11: Dwyrain Afon Menai, gydag ardal fechan yn y gogledd oddi mewn i 10: Penmon ac Ynys Seiriol (Strategaeth Tirwedd Ynys Môn, diweddarwyd 2011).

## Matrics o elfennau ardaloedd agwedd LANDMAP

**LANDMAP Aspect Area Matrix - SLA : Beaumaris Wooded Slopes & Llandoeg Vale**

| Aspect area | UID | Area name | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | Overall Evaluation |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Geological Landscapes | YNSMNGL042 | Llangoed | L | L | L | L | | | | | | Moderate |
| | YNSMNGL041 | Llansadwrn | O | O | O | O | | | | | | Outstanding |
| | YNSMNGL040 | Penmon | O | M | H | M | | | | | | Outstanding |
| | YNSMNGL039 | Llanddona | L | L | L | L | | | | | | Moderate |
| Landscape Habitats | YNSMNLH128 | Bwrdd Arthur and Mariandrys | H | H | U | U | M | M | H | H | | High |
| | YNSMNLH116 | Surrounding Pentraeth Forest | M | M | M | U | M | M | M | H | | Moderate |
| | YNSMNLH100 | Farmland N. of Beaumaris | L | L | M | U | M | U | L | M | | Moderate |
| | YNSMNLH075 | Bridge | U | M | U | U | M | H | H | H | | High |
| Visual & Sensory | YNSMNVS076 | Llangoed | M | L | M | M | | | | | | Moderate |
| | YNSMNVS025 | Beaumaris wooded slopes | H | H | H | H | | | | | | High |
| | YNSMNVS017 | Eastern smooth belt | M | H | L | L | | | | | | Moderate |
| | YNSMNVS016 | Llangoed vale | H | M | M | M | | | | | | Moderate |
| | YNSMNVS015 | Penmon plateau | H | M | O | H | | | | | | High |
| | YNSMNVS005 | Mynydd Llwydiarth | H | H | H | M | | | | | | High |
| Historic Landscapes | YNSMNHL069 | Llangoed | O | H | | O | | | | | | Outstanding |
| | YNSMNHL067 | Fieldscape around Llanfaes | O | H | | H | | | | | | Outstanding |
| | YNSMNHL016 | Fieldscape, central eastern Mon | O | O | | H | | | | | | Outstanding |
| | YNSMNHL011 | Llanddona | O | H | | H | | | | | | Outstanding |
| | YNSMNHL009 | Fieldscape around Glan-yr-afon | U | H | | H | | | | | | Outstanding |
| Cultural Landscapes | YNSMNCL033 | Central Anglesey | U | H | H | U | H | H | H | H | H | High |
| | YNSMNCL021 | Penmon, Llanddona | H | O | O | H | O | O | L | O | M | Outstanding |

# 16: Tir Stad De Ynys Môn

*Map Lleoliad*



Lleolir yr Ardal Tirwedd Arbennig hon yn ne Ynys Môn, i'r gorllewin o dref Llanfairpwll. Mae'n cynnwys rhan o stad Marcwis Ynys Môn, sy'n gorwedd yn union i'r gogledd o draethlin yr Afon Menai sydd wedi'i dynodi'n AHNE.

# Datganiad Gwerth ac Arwyddocâd

| Disgrifiad o'r dirwedd | | |
|---|---|---|
| Mae'r Ardal Tirwedd Arbennig hon yn ffurfio rhan o barc Plas Newydd sydd wedi'i dirlunio (sy'n adeilad rhestredig Gradd I) a osodwyd yn ystod y 18fed a'r 19eg ganrif. Mae'r stad ehangach yn ymestyn ar hyd glannau gogleddol yr Afon Menai, o fewn AHNE Ynys Môn. Mae tirwedd yr ATA yn ffurfio parhad o gymeriad y rhan hon o'r AHNE, gyda theimlad stad gryf wedi'i amlygu oherwydd presenoldeb planhigfeydd conwydden a llydanddail cymysg, caeau pori, a choed aeddfed yn y caeau a'r gwrychoedd. Mae'n dirwedd heddychlon a gwledig, ac mae'r boblogaeth yn gyfyngedig i ffermydd gwasgaredig a phentrefannau wedi'u cysylltu gan lonydd tawel a thraciau heb eu marcio. Mae golygfeydd mawreddog ar draws ac ar hyd y Fenai i Barc Cenedlaethol Eryri yn darparu gosodiad golygfaol iawn i'r ATA hon. | | |
| **Sut mae'r Ardal Tirwedd Arbennig (ATA) yn cwrdd â meini prawf y dynodiad** | | |
| **Ymarferol (rhaid cwrdd â'r ddau faen prawf)** | ***Angen*** | Mae'r ATA hon yn union gyferbyn ag AHNE Ynys Môn, gan ymestyn cymeriad stad Plas Newydd ehangach sy'n parhau ar draws ffin y dirwedd a warchodir. Mae'n darparu gosodiad gwerthfawr i dirwedd yr AHNE a'r tir parc rhestredig (Gradd I). Y prif faterion sy'n effeithio'r dirwedd hon yw pwysau datblygu yn ymwneud â thyrbinau gwynt, twristiaeth, anheddiad Llanfairpwll sydd gyferbyn, a phrif goridor ffordd yr A4080 (sy'n ffurfio ffin ddeheuol yr AHNE). |
| | ***Cyfanrwydd/cydlyniad cymeriad*** | Mae'r ATA hon yn dilyn ffin yr ardal elfen Tirwedd Hanesyddol sy'n cynnwys y stad tir parciau ehangach o fewn yr AHNE. Mae'r ardal gyfan hon wedi'i gwerthuso yn 'Eithriadol'. |
| **Tirwedd (rhaid cwrdd ag un maen prawf o leiaf)** | ***Hynodrwydd lleol a naws am le*** | Mae cymeriad hanesyddol cryf y dirwedd hon, ynghyd â'i phoblogaeth wasgaredig, yn arwain at naws cryf am le sy'n cael ei mwyhau gan ei gosodiad golygfaol. Mae hyn yn cyferbynnu â datblygiad ac isadeiledd cyfagos ar ymylon dwyreiniol yr ATA. |
| | ***Ansawdd y dirwedd*** | Dyma dirwedd gyfan gyda nodweddion sy'n cael eu rheoli'n briodol er mwyn diogelu a mwyhau ei naws am le hanesyddol a chryf. Nid yw'n ymddangos yn wahanol o ran tirwedd i'r dirwedd warchodedig cenedlaethol, sef yr AHNE. Mae gan stad tir parciau Plas Newydd ehangach ddylanwad mawr ar yr ATA a'i chefnwlad. |
| | ***Ansawdd yr olygfa*** | Elfen allweddol o gymeriad tirwedd yr ATA yw ei gosodiad golygfaol a'i rhyngwelededd cryf ag AHNE Ynys Môn, y Fenai a mynyddoedd Eryri. Yn lleol, ymyrrir â nodweddion heddychlon a gwledig y dirwedd gan goridor ffordd yr A4080, y rheilffordd rhwng Bangor a Chaergybi ac ymylon Llanfairpwll. |
| **Gosodiad tirweddau gwarchodedig (ble bo'n berthnasol)** | ***Gosodiad tirweddau o bwysigrwydd cenedlaethol*** | Mae'r ATA yn darparu gosodiad sy'n union ger rhan o AHNE Ynys Môn, ar lannau gogleddol y Fenai. Dylai'r cynigion dalu sylw i nodweddion arbennig y dirwedd warchodedig a rhoi ystyriaeth ddyledus i Gynllun Rheoli'r AHNE. |
| **Nodweddion Arbennig yr ATA** | | |

Dylai gwaith cynllunio a chynigion rheoli yn yr ATA ac yng ngosodiad ei thirwedd roi ystyriaeth i'r nodweddion arbennig isod:

- Teimlad stad gryf y dirwedd, fel rhan o stad restredig Gradd 1 o'r 18fed/19eg ganrif (Plas Newydd).
- Brithwaith y tir pori (gan gynnwys tir pori coed), planhigfeydd coetir stad a choed aeddfed mewn caeau a gwrychoedd;
- Swyddogaeth y dirwedd fel gosodiad i ran o AHNE Ynys Môn;
- Ei rhyngwelededd cryf â'r AHNE gerllaw, a golygfeydd deniadol ar draws y Fenai i fynyddoedd Eryri;
- Cymeriad heddychlon a gwledig iawn y dirwedd, gyda diffyg datblygu modern cyffredinol.

**Cyfeiriad at yr Asesiad Cymeriad Tirwedd lleol a LANDMAP**

*Cysylltiad gyda'r Asesiad Cymeriad Tirwedd*

Mae'r ATA i gyd oddi fewn i'r ACT 12: Dwyrain Canol Môn (Strategaeth Tirwedd Ynys Môn, diweddarwyd 2011).

## Matrics o elfennau ardaloedd agwedd LANDMAP

| LANDMAP Aspect Area Matrix - SLA : Southern Anglesey Estatelands | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Aspect area** | **UID** | **Area name** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **Overall Evaluation** |
| Geological Landscape | L048 | Brynsiencyn | L | L | L | L | | | | | | M |
| | L047 | Llandaniel Fab | L | L | L | L | | | | | | M |
| | L044 | Afon Braint | L | L | L | L | | | | | | M |
| | L041 | Llansadwrn | O | O | O | O | | | | | | O |
| Landscape Habitats | H067 | Llanfair PG | U | M | U | U | M | H | M | M | | M |
| | H060 | Malltraeth Marsh | L | L | M | U | M | M | L | M | | M |
| Visual & Sensory | S091 | A55 corridor | L | L | M | L | | | | | | L |
| | S079 | Brynseincyn | L | L | L | M | | | | | | L |
| | S062 | Llanfair Pwllgwyngyll | L | L | L | L | | | | | | L |
| | S026 | south | H | H | H | H | | | | | | H |
| | S018 | South-west ridges | M | H | M | L | | | | | | M |
| Historic Landscapes | L065 | Brynsiencyn | H | O | | M | | | | | | H |
| | L006 | associated villages | O | O | | H | | | | | | O |
| | L005 | Malltraeth | M | H | | M | | | | | | M |
| | L004 | parkland | O | O | | M | | | | | | O |
| Cultural Landscapes | 035 | Llanidan | H | O | O | U | O | O | M | M | H | O |
| | 033 | Central Anglesey | U | H | H | U | H | H | H | H | H | H |
| | 031 | Sustrans Cycle Route | O | M | H | L | M | L | L | M | O | H |
| | 012 | area | H | M | H | U | H | H | H | M | M | H |
| | 009 | Holyhead | H | O | O | O | O | M | H | H | O | O |